# 2018/19

## Adroddiad Blynyddol

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **3** | Cyflwyniad |
| **4** | Gweithio mewn partneriaeth effeithiol |
| **6** | Gwneud gwahaniaeth |
| **10** | Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **13** | Blwyddyn o ymgysylltu |
| **14** | Blaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd - Adroddiad Cynnydd 2018/19 |
| **20** | Crynodeb o Ganlyniadau |
| **24** | Ariannu a Chyllid |
| **31** | Cysylltiadau |

# Cyflwyniad

## Neges gan Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru




**Croeso i fy Adroddiad Blynyddol 2018-19 fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnig diweddariad ar gynnydd cyffredinol yn erbyn cyflawni blaenoriaethau strategol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Cafodd fy Nghynllun ei lunio ar ystod eang o wybodaeth sy'n cael ei hadlewyrchu mewn pum maes blaenoriaeth allweddol.**

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddau Rhywiol
- Trosedd Difrifol a Threfnedig
- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Er fy mod yn rhoi'r un pwys ar y pum blaenoriaeth strategol, cyflwynwyd y thema gyffredinol o ***'leihau camfanteisio troseddol ar bobl fregus'*** y llynedd ac mae wedi ei phwysleisio yn arbennig drwy gydol yr adroddiad hwn.

Eleni, fy mhleser oedd cael penodi Carl Foulkes fel Prif Gwnstabl newydd Heddlu Gogledd Cymru. Daw Carl â chyfoeth o brofiad i'r rôl y mae eisoes wedi gwneud ei farc ei hun arno. Mae ei ymroddiad a'i angerdd a'i benderfyniad i wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU yn un rwyf yn ei gymeradwyo'n llwyr ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda Carl a'i dîm i gyflwyno gwasanaeth heddlu rhagorol i'n cymunedau.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad ac adlewyrchu ar y deuddeg mis o dan sylw, rwyf yn sylweddoli faint sydd wedi cael ei gyflawni yn yr amser hwnnw a pha mor brysur a heriol mae hi wedi bod i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a phlismona yn y DU.

Mae ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd a'i effaith eto i'w ddatrys wrth i mi ysgrifennu. Mae yna risg fod Brexit yn peryglu'r DU a Gogledd Cymru. Mae ein cydweithrediad gyda gweddill Ewrop yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth i ddiogelu Gogledd Cymru yn erbyn terfysgaeth a throsedd trefnedig difrifol fel caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a chyffuriau. Bydd Brexit caled yn golygu dechrau o'r dechrau, trafod yn unigol gyda phob gwlad a defnyddio offerynnau yr ydym fel arfer yn defnyddio ar gyfer gwledydd y tu allan i'r UE a bydd hynny'n golygu y bydd estraddodi yn arafach ac yn fwy anodd a bydd troseddwyr yn osgoi cyfiawnder ac yn ei gweld hi'n haws i weithredu yn y DU. Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd credaf mai fy nyletswydd i yw siarad allan yn erbyn unrhyw beth sy'n bygwth diogelwch ein cymunedau a byddaf yn parhau i wneud hynny.


Mae'r hinsawdd ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn wrth gwrs, er wrth ysgrifennu hwn rwyf yn hyderus bod y llanw yn troi a bod y Llywodraeth yn cydnabod bod y toriadau ariannol i blismona ers dros ddegawd wedi mynd yn rhy bell ac yn rhy ddwfn.

Gyda chefnogaeth y Panel Heddlu a Throsedd, yn 2019/20 roeddem yn gallu buddsoddi yn ôl yn y gweithlu gyda chynnydd o 30 swyddog heddlu a 6 staff. Tra bod hyn yn newyddion i'w groesawu byddaf yn parhau i wthio am ragor o fuddsoddiad i wneud yn iawn am y toriadau a osodwyd arnom dros y degawd diwethaf.

Er ei bod hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Heddlu Gogledd Cymru, mae heriau wrth gwrs a meysydd sy'n gofyn am welliant fel y nodwyd gan HMICFRS ac sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn. Serch hynny, drwy graffu ar yr Heddlu rwyf yn fodlon bod trefniadau yn eu lle i wella yn y meysydd hynny.

Hoffwn ddiolch i'r Panel Heddlu a Throsedd am eu cyfraniad ym maes llywodraethu plismona Gogledd Cymru. Mae bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol yn bwysig iawn i mi. Roeddwn i wrth fy modd bod CoPaCC unwaith eto wedi cydnabod yr ymrwymiad hwnnw ac wedi rhoi'r Wobr Tryloywder ar gyfer 2018 am y 3ydd flwyddyn yn olynol sy'n llwyddiant rhyfeddol, ac rwyf yn falch iawn o'r ffaith. Fy mwriad yw parhau i gynnal y lefel uchel hwn o atebolrwydd ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad.

Y flwyddyn sydd i ddod (2019/20) fydd fy mlwyddyn olaf i cyn etholiadau CHTh fis Mai 2020. Mae fy llwyddiannau hyd yn hyn wedi eu gosod yn yr adroddiad hwn, ond mae hyn i raddau helaeth oherwydd cefnogaeth ardderchog holl swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a'r tîm bach sy'n gweithio yn fy swyddfa.



**Arfon Jones**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Gweithio mewn partneriaeth effeithiol

Mae llawer o'r heriau rwyf yn eu hwynebu fel CHTh yn rhai na all yr heddlu eu trin yn ynysig ac felly mae gofyn am bartneriaeth ddyfeisgar ac effeithiol i wneud gwir wahaniaeth.

Mae gennyf **dîm bach o staff ymroddedig** sy'n gweithio gyda mi a'r Heddlu i sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflwyno a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cwrdd. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, yn enwedig y Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Cyllid a staff cefnogol sy'n arbenigo mewn ymchwil, polisi, llywodraethu, cyllid, comisiynu a chyfathrebu. Yn aml nid yw'r gwaith a wneir yn cael ei adrodd, er enghraifft ymateb i adroddiadau AHEM, Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefnu tribiwnlysoedd apêl yr heddlu, hwyluso cynadleddau, recriwtio a chynnal Pwyllgor Archwilio yn ogystal â recriwtio Aseswyr Annibynnol ac Ymwelwyr y Ddalfa. Ceir manylion llawn o strwythur staffio ar fy ngwefan.

Mae Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol yn flaenoriaethau allweddol o fewn fy Nghynllun. Mae gwaith Cynorthwywyr Annibynnol Trais Rhywiol a Chynghorwyr ar Gam-drin Domestig Annibynnol yn allweddol i sicrhau bod dioddefwyr y troseddau gwrthun hyn yn derbyn y gefnogaeth maent yn eu haeddu drwy'r system cyfiawnder troseddol. Rheolir y gwasanaeth hwn a'n dull o daclo Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol yn ehangach drwy'r **Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** sy'n cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr. Yn ychwanegol at y cyllid yr wyf yn ei ryddhau ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn, derbynnir arian hefyd gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau nad yw'r grant yn cael ei wario ar gostau comisiynu ac yn cael ei wario ar y llinell flaen lle mae ei angen fwyaf, fi sydd yn parhau i fod y corff atebol ar gyfer y grant a'i wariant.

Yn ystod 2018/19 cyflawnodd Bwrdd Prosiect Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod waith rhagorol sy'n destun balchder mawr i mi. Ym mis Tachwedd 2017 cyfrannodd y Swyddfa Gartref £6.87m i'r pedwar Heddlu, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Barnado's a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i sefydlu menter gydweithredol Dull Plismona Genedlaethol Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE). Arweiniodd cyfran o'r arian hwn at ddatblygiad tîm Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru (EATP) sy'n cael ei ariannu hyd at fis Mawrth 2020 i gyflwyno menter newid drawsnewidiol.



Mae'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru (EATP) wedi ei hanelu at drawsnewid y ffordd y mae bregusrwydd yn cael ei blismona. Gan ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus mae'r Rhaglen yn gweithio gyda nifer o asiantaethau trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gylch trosedd a mynd i'r afael â diffyg ymyrraeth gynnar pan mae Profiad Niweidiol Yn Ystod Plentyndod (ACE) a thrawma yn bresennol er mwyn symud at ddull ataliol tuag at drosedd.

Mae'r EATP yng Ngogledd Cymru wedi bod yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth hyd yma ac wedi sicrhau fod amcanion rhaglen wedi cael eu perchnogi a'u rhannu ar y cyd. Nid yw'r rhaglen wedi canolbwyntio ar Blismona yn unig ond ar sut mae'r Heddlu'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwell ymatebion i bobl fregus er mwyn atal dwysau'r bregusrwydd hynny. Rwyf wrth fy modd gyda'r canlyniadau hyd yn hyn. Gan edrych ymlaen at 2019/20, y flwyddyn olaf o gyllido ar gyfer y rhaglen, rhaid i'r ffocws fod ar gynaladwyedd y gwaith. Rwyf yn gwybod bod y Prif Gwnstabl a mi o'r un farn a bydd hyn yn dod yn arfer greiddiol o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Hoffwn weld ein partneriaid mewn Awdurdod Lleol ac eraill yn gwneud yr un peth.

Mae'r **Panel Heddlu a Throsedd** yn parhau i graffu a herio fel bo angen i sicrhau fy mod yn cyflawni fy rôl yn effeithiol. Mae'r adborth rwyf yn derbyn oddi wrth y Panel yn cael ei gymryd i ystyriaeth ac yn fy nghynorthwyo i wneud penderfyniadau yng nghyswllt strategaeth, blaenoriaethau plismona a'r gyllideb. Edrychaf ymlaen at berthynas adeiladol gyda'r Panel.

Mae'r **Cydbwyllgor Archwilio** yn bwyllgor gyda phum aelod annibynnol a'i bwrpas yw chwarae rôl allweddol yn trosolygu llywodraeth fy swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru. Drwy ystyried adroddiadau oddi wrth **Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru** ac eraill, maent yn gallu cynnig sicrwydd annibynnol ar ddigonoldeb fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol ac uniondeb adrodd ariannol a phrosesau llywodraethu blynyddol. Gall craffu gan **y Cydbwyllgor Archwilio** ein cynorthwyo i

yrru a nodi gwelliannau pellach. Penodwyd Pwyllgor newydd ym mis Ebrill 2018 ac rwyf yn diolch iddynt am eu gwaith rhagorol a'u cyfraniad yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Mae **Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol (PSSB)** yn monitro ac yn craffu ar y dull y mae cwynion a chyhuddiadau camymddwyn yn cael eu trin gan Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau y gallaf fod yn fodlon bod y trefniadau a'r prosesau yn eu lle yn briodol ac yn effeithiol. Mae'r **PSSB** yn cael ei gadeirio gan fy Nirprwy, Ann Griffith gyda chyngor proffesiynol oddi wrth fy Mhrif Weithredwr, y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Yn ystod 2018/19 mae fy Mhrif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Gwnstabl wedi cadeirio prosiect bwrdd mewnol ar y cyd er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Plismona a Throsedd 2017 sydd i ddigwydd ym mis Chwefror 2020. Bydd hyn yn creu newidiadau dramatig i'r perfformiad cyfredol, y broses gwyno a chamymddwyn a bydd **y PSSB** yn parhau i weithio yn agos gyda'r Heddlu i graffu a chefnogi rhoi'r newidiadau ar waith. Yn rheolaidd mae staff o fy swyddfa yn parhau i gymryd samplau ar hap o gwynion sy'n berthnasol i ddefnyddio grym a materion eraill i sicrhau nad oes rhagfarn yn y broses gwneud penderfyniadau a bod yr ymchwiliadau yn rhesymol ac yn deg.

Mae gennyf ddyletswydd statudol i sicrhau bod y maes plismona yn cynnig system gyfiawnder effeithiol ac effeithlon. Un o'r mecanweithiau allweddol i gyflawni hyn yw Cadeirio **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru (NWCJB)**. Mae aelodaeth o'r bwrdd yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Thimau Troseddau Ieuenctid. Yn ystod 2018/19 mi wnes i roi tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r Comisiwn Thomas a sefydlwyd i adolygu'r system gyfiawnder a phlismona yng Nghymru. Rwyf i ac yn wir Comisiynwyr eraill yng Nghymru yn awyddus i weld mwy o gyfrifoldebau wedi eu datganoli fel y gall mwy o gynnydd gael ei wneud.

Rwyf yn cael fy nghynrychioli ar y **Panel Craffu Amlasiantaeth ar gyfer Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys**. Pwrpas y panel yw asesu yn annibynnol, craffu a rheoli ansawdd y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys gan Heddlu Gogledd Cymru. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer da ac adnabod datblygiad polisi posib neu anghenion hyfforddi i'w hystyried gan yr Heddlu neu asiantaeth arall. Mae'r craffu yn digwydd gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill yn y teulu cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llys Ynadon, Canolfan Cymorth Dioddefwyr a Thimau Troseddau Ieuenctid.

Rwyf yn aelod o'r **Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CCHTh/APCC)**. Corff cenedlaethol yw'r **CCHTh** sy'n cynorthwyo Comisiynwyr i wneud y gorau o'u gallu i ddylanwadu ar lefel genedlaethol a chyflawni eu dyletswyddau statudol a blaenoriaethau plismona. Drwy rannu arfer da ac adnabod cyfleoedd i weithio ar y cyd, a thalu am wasanaethau ar y cyd, mae'r **CCHTh** yn cynorthwyo Comisiynwyr i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Rwyf yn eistedd ar Fwrdd yr CCHTh ac rwyf hefyd yn Ddirprwy Arweinydd ar gyfer Portffolio Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau.

Mae **Eich Cymuned, Eich Dewis** yn brosiect wedi ei reoli gan **PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned)** Gogledd Cymru, sy'n rhannu arian sydd wedi cael ei atafaelu o droseddwyr i sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae arian a atafaelwyd drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau ac o fy Nghronfa Comisiynydd yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Bu 19 grŵp cymunedol yn llwyddiannus y llynedd gyda chyfanswm o geisiadau grant hyd at £61,901.00 yn cynorthwyo cynnal gwasanaethau fel 'Wrexham One Love Homeless Choir', Canolfan Gweithgareddau'r West End i blant ym Mangor, a 'Cobra Life' yng Nghei Connah, Neuadd Gymunedol Llanddona ar Ynys Môn; Sgwad Fôr Bae Colwyn, Clwb Bocsio'r Rhyl, yn ogystal â dau brosiect sy'n ymwneud â llinellau cyffuriau.

Mae gennyf dîm ymroddedig o **Ymwelwyr Dalfa Annibynnol** sy'n fy nghynorthwyo i graffu ar ddarpariaeth y ddalfa yn Heddlu Gogledd Cymru. Maent yn cynnal ymweliadau rheolaidd ac yn sicrhau bod lles y carcharorion yn cael ei hyrwyddo. Gwnaeth yr Ymwelwyr Dalfa Annibynnol 133 o ymweliadau â'r ddalfa heb roi gwybod o flaen llaw llynedd. Yn ystod y cyfnod adrodd cadwyd cyfanswm o 10,907 o garcharorion yn y Ddalfa yng Ngogledd Cymru a 633 yn ystod yr ymweliadau.

O'r 633 o garcharorion a gadwyd yn y ddalfa yn ystod yr ymweliadau roedd 344 ar gael i'w gweld a chytunodd 296 i ymweliad (86%). Mae'r nifer uchel o garcharorion sy'n cytuno i gael ymweliad gan yr ymwelwyr dalfa yn profi effeithiolrwydd y Cynllun ac rwyf yn eu diolch am eu hymdrechion parhaus.

O ganlyniad i'r gynghrair rhwng Unedau Cŵn Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer rydym wedi ymuno â **chynllun ymwelwyr lles cŵn** llwyddiannus Swydd Gaer. Yn ystod y cyfnod adrodd cwblhawyd 18 ymweliad drwy gydol Swydd Gaer a Gogledd Cymru (yn cynnwys dyddiau hyfforddi ac ymweliadau â'r cytiau cŵn) ac ymwelwyd â 59 ci. Ymwelwyd ag a gwiriwyd cyfanswm o 104 ci gan wirfoddolwr. Yn ychwanegol at edrych ar gytiau'r cŵn a'r adnoddau hyfforddi gwiriwyd cerbydau'r cŵn heddlu ac adroddwyd eu bod i gyd mewn cyflwr da. O ganlyniad i'r ymweliadau hyn prynwyd cysgod lliain ychwanegol ar gyfer y cŵn yn ystod y tywydd poeth a thalwyd am welliant i'r system ddraeniad yn y cytiau.

# Gwneud gwahaniaeth



Rwyf yn hynod falch o waith a chyflawniadau fy Swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod 2018/19. Rwyf wedi rhestru isod enghreifftiau o rai o'n llwyddiannau yn ein hymdrech i wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU.

## Ebrill 2018

- Cyfarfûm â swyddogion o Lywodraeth Cymru a Nazir Afzal, Cynghorydd Rhanbarthol VAWDASV rhanbarthol Llywodraeth Cymru i drafod sut y gallwn symud ymyraethau troseddwyr ymlaen yng Ngogledd Cymru drwy ein Bwrdd VAWDASV.

- Bu fy arweinydd gweithredol ar Gam-drin Domestig yng nghynhadledd Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh yn Llundain. Testun y Gynhadledd oedd "Reporting Stalking: Best Practice in Stalking Cases". O ganlyniad, dechreuwyd ar waith i sefydlu faint o bobl sydd wedi cael eu harestio a'u cyhuddo o droseddau stelcio yng Ngogledd Cymru; pa gefnogaeth benodol sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr stelcio yng Ngogledd Cymru; a ydy Rhybudd Gwybodaeth yr Heddlu yn cael eu dyroddi yng Ngogledd Cymru mewn achosion o stelcio; sut mae swyddogion HGC a staff yr ystafell reoli yn cael eu hyfforddi i adnabod ymddygiad fel stelcio; ac wedi i stelcio gael ei adnabod.

- Derbyniais gyflwyniadau gan Heddlu Durham ar ei Raglen Checkpoint a Heddlu Avon a Gwlad yr Haf ar Raglen Addysg Bryste. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn at sefydlu Checkpoint Cymru yn y diwedd.




## Mai 2018

- Arweiniodd Ymgyrch Lenten, ymchwiliad i gamfanteisio rhywiol ar blant a throseddau caethwasiaeth fodern, at gofnodi cannoedd o droseddau, yn cynnwys troseddau caethwasiaeth fodern. Adnabuwyd dioddefwyr ifanc a chawsant gefnogaeth gan y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr.

- Yn ystod ymweliad â'r Pentref Peryglus dysgais am beryglon yr ap cyfrwng cymdeithasol Musical. ly i blant. O ganlyniad mi wnes i annog rhieni i gynyddu'r gosodiadau diogelwch a phreifatrwydd ar ffonau symudol ac apiau eu plant. Rhybuddiais rieni a gofalwyr am osodiadau lleoliadau ar yr ap Snapchat.




- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i gynnig dewis iaith gwirioneddol i bawb sy'n dod i gysylltiad â nhw. Ym mis Mai 2018, mi wnaethon nhw gynnal cynhadledd yn dathlu Cymraeg yn y gweithle. Yn ystod y gynhadledd lansiodd Heddlu Gogledd Cymru a minnau ein Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd newydd. Yn bresennol yn y gynhadledd roedd Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws.

## Mehefin 2018

- Daeth y cymal cyntaf o Ymgyrch Zeus, ymchwiliad mawr i weithgareddau troseddol pobl sy'n cyflenwi cyffuriau rheoledig ar draws Gogledd Orllewin Cymru, i ben gyda nifer o ddiffynyddion yn pledio'n euog.

- Daeth Ymgyrch Lamberts i ben hefyd gydag euogfarnu a dedfrydu 3 unigolyn i dros 10 mlynedd o garchar am gynllwynio i gyflenwi cyffuriau dosbarth A.

- Croesawodd Heddlu Gogledd Cymru bron i 100,000 o ymwelwyr i Landudno ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau fel gorymdaith seremonïol ar lan y môr gyda phersonél sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, cyn-filwyr, cadetiaid a bandiau gorymdeithio. Roedd arddangosiadau, sioe awyr a cherbydau milwrol i gyd i'w gweld yn ystod y diwrnod. Roedd hwn yn ddigwyddiad cymhleth a fu'n llwyddiant ysgubol ac un o'r gweithgareddau plismona mwyaf i Heddlu Gogledd Cymru ei gynnal erioed. Llwyddodd Heddlu Gogledd Cymru i bortreadu ei hun mewn golau positif a phroffesiynol iawn.



## Gorffennaf 2018

- Derbyniais nifer o adroddiadau yn ymwneud â Merched yn y System Cyfiawnder Troseddol ac yn fwy penodol carcharu merched. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru cynhaliais Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleihau Carcharu Merched er mwyn cyflwyno nifer o argymhellion.

- Lansiais apêl i ganfod ymwelwyr lles cŵn yr heddlu i gadw llygaid ar yr anifeiliaid sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru a Swydd Caer. Bydd yr ymwelwyr yn sicrhau bod cytiau'r cŵn mewn cyflwr da, bod cerbydau'r heddlu yn lân gyda digon o ddŵr i'r cŵn a bod y rhai sy'n trin y cŵn yn gymwys i drin y cŵn a'r cerbydau.



## Awst 2018

- Cynhaliais weithdy Rhaglen Dargyfeirio Gogledd Cymru yn yr OpTic yn Llanelwy ar gyfer y trydydd sector a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â throseddwyr lefel isel. Roedd y gweithdy yn llwyddiant mawr gyda dros 40 o bobl yno yn rhoi eu barn ar yr hyn y credant a fyddai'n gweithio orau yng Ngogledd Cymru.

- Bu canlyniad llwyddiannus i'r achos Ymgyrch Teal gyda dau ddyfarniad euog am lofruddio. Roedd y llofruddiaeth yn ymwneud ag anghydfod ynglŷn â chyffuriau rhwng gangiau Llinellau Cyffuriau o Lannau Mersi a oedd yn gweithredu yn ardal Glannau Dyfrdwy. Dedfrydwyd dau ddyn am gyfanswm o 53 mlynedd.

- Cynhaliwyd y broses recriwtio Prif Gwnstabl newydd. Roedd y broses recriwtio yn llwyddiant arbennig a derbyniwyd canmoliaeth uchel gan yr aelod annibynnol a benodwyd i oruchwylio'r broses. Mae'r broses recriwtio a ddefnyddiwyd gennym wedi cael ei fabwysiadu fel arfer gorau gan Swyddfa CHTh eraill ers hynny.

## Medi 2018

- Cytunwyd ar fy Strategaeth Plant a Phobl Ifanc gyda'r Prif Gwnstabl gyda chynllun gweithredu i'w ddatblygu i gyflawni'r strategaeth.

- Fel rhan o ymrwymiad Heddlu Gogledd Cymru i fod yn sefydliad dementia-gyfeillgar lansiwyd Protocol Herbert fis Medi 2018 gan Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Cynlluniwyd Protocol Herbert i roi cymorth wrth ganfod unigolion os byddant yn mynd ar goll a chynnig sicrwydd i deulu a ffrindiau bod gan yr heddlu'r holl wybodaeth sydd angen arnynt i ganfod lleoliad yr unigolyn. Menter genedlaethol yw Protocol Herbert sydd wedi cael ei mabwysiadu gan Heddlu Gogledd Cymru, yn ogystal â heddluoedd eraill o gwmpas y DU.

## Hydref 2018

- Cynhaliwyd Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb o 13 Hydref hyd at 20 Hydref. Ariannais brosiectau cymunedol a mentrau i godi ymwybyddiaeth o drosedd casineb. Dosbarthais £5,000 o arian prosiect a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol cyfrannais £3,362 o fy nghyllideb fy hun i ariannu digwyddiadau a gweithgareddau. Derbyniais 18 cais i gyd yn gwneud cyfanswm o £16,528.71. Cytunwyd ar ariannu 12 prosiect.

- Noddais gynhadledd gwrth-gaethwasiaeth BAWSO yn Wrecsam ac mi wnes i gyflwyno araith yn y gynhadledd. Daeth nifer da o bartneriaid i'r digwyddiad gan bwysleisio mater allweddol sydd ar hyn o bryd yn wynebu pob partner sy'n gweithio yn yr ardal hon, sef diffyg cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr y tu allan i'r cyfnod o 45 diwrnod y NRM. Rhaid taclo'r broblem hon yn genedlaethol. Ymatebais i Bwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar y pwynt hwn ac anogais y Llywodraeth i ymestyn y cyfnod ar gyfer y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Hefyd, mi wnes i barhau i annog darparwyr y trydydd sector i anelu eu gwasanaethau tuag at y bobl hynny sy'n parhau yn fregus ond am ba bynnag reswm, nid ydynt yn gymwys o dan y NRM.

## Tachwedd 2018

- Dechreuodd Prif Gwnstabl Foulkes ei rôl newydd fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Gosododd Prif Gwnstabl Foulkes ei weledigaeth ar unwaith i sicrhau mai Gogledd Cymru fydd y lle mwyaf diogel yn y DU, gweledigaeth rwyf yn ei chymeradwyo yn llwyr.

- Lansiais gynllun newydd i leihau'r galw cynyddol ar ystafell reoli'r heddlu yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn dros 1100 galwad y diwrnod. Dim ond 150 o'r galwadau hynny sy'n riportio troseddau. Yn yr ymgyrch gofynnais i'r cyhoedd gynorthwyo i leddfu'r pwysau oddi ar yr ystafell reoli ac i feddwl cyn deialu 999. Mae mor bwysig bod pobl yn ffonio'r rhif cywir i sicrhau bod y galw yn cael ei ateb lle mae ei angen fwyaf.



## Rhagfyr 2018

- Cyhoeddwyd fy ymateb i Strategaeth Trais Difrifol Llywodraeth y DU gan Bwyllgor Dethol ar Faterion Cartref. Un o brif amcanion y Strategaeth Trais Difrifol yw atal y rhai sy'n debygol o ddod yn rhan o droseddau trefnedig drwy gynnig dewis arall yn hytrach na throsedd iddynt. Bydd datblygiad rhaglen ddargyfeirio Checkpoint Cymru yn adnabod bregusrwydd ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol.

- Yn dilyn nifer o gwynion gan y cyhoedd yn ymwneud â'r system 101 gofynnais i fy staff gynnal sampl ar hap o alwadau nad ydynt yn rhai brys bob chwarter. Bydd y sampl ar hap hwn yn fy ngalluogi i allu asesu'r lefel o wasanaeth sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd.



## Ionawr 2019

- Comisiynwyd Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau gan Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru o ganlyniad i Adolygiadau Ardal y Swyddfa Gartref. Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl a gytunwyd arno fis Ionawr 2019 a chynhyrchwyd adroddiad drafft ym mis Ebrill 2019. Arweiniodd yr Asesiad Anghenion at asesiad holistaidd amlasiantaeth o'r bygythiad a osodwyd gan Linellau Cyffuriau ac mae nawr yn hysbysu argymhellion. Roedd hwn yn ddarn ardderchog o waith a'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

- Cynhaliais arolwg gydag ein cymunedau i sicrhau eu bod yn parhau i gytuno gyda blaenoriaethau plismona yng Ngogledd Cymru a faint y byddai pobl yn barod i dalu am y gwasanaeth plismona. Canfuwyd cefnogaeth ar gyfer y blaenoriaethau a bod 51% o 1,877 o drethdalwyr treth y cyngor a gymerodd ran o blaid cynnydd o 37c neu fwy – gyda thraean ohonynt yn cefnogi cynnydd llawer mwy o 50c ac uwch yr wythnos.

## Chwefror 2019



- Lansiodd y Prif Gwnstabl a minnau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd newydd. Yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 buom yn ymgynghori â rhanddeiliaid, partneriaid a staff i sefydlu blaenoriaethau newydd ar gyfer 2019-2023. Fel bob amser mae rhai o'n blaenoriaethau yn parhau o'n cynllun blaenorol fel taclo trosedd casineb a sicrhau defnydd effeithiol a theg o rymoedd. Serch hynny, rydym hefyd yn gweld cynnydd mewn gweithgareddau i sicrhau cynrychiolaeth briodol yn y gweithle yn ymwneud â'r Gymraeg, rhywedd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill.

- Lansiwyd Cronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid ac mae'n anelu at daclo trais difrifol sy'n effeithio pobl ifanc yng Nghymru. Bu cais ar y cyd gan y pedwar CHTh yng Nghymru yn llwyddiannus gan sicrhau cyllid o £1.7m. Mae'r gwaith a gyflwynir drwy'r prosiect hwn yn cael ei arolygu gan Grŵp Amlasiantaeth Trais Difrifol Cymru ac yn cael ei reoli gan y pedwar Cydlynydd Atal Trais Difrifol o fewn pob heddlu yng Nghymru.

## Mawrth 2019

- Datblygwyd pecyn ymyrraeth troseddwyr ar gyfer troseddwyr Cam-drin Domestig. Mae ADAPT - (Asiantaethau Gorchwylio Troseddwyr Cam-drin Domestig) yn seiliedig ar y broses MATAC (Cydlynu a Gorchwylio Amlasiantaeth) yn Northumbria. Mae'r broses hon yn canolbwyntio ar droseddwyr cam-drin domestig sydd yn fwy tebygol na pheidio â pharhau i gyflawni troseddau cam-drin domestig heb fod yna ymyrraeth. Bydd canlyniadau'r peilot yn cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol 2019/20.

- Roeddwn wrth fy modd bod fy swyddfa wedi derbyn Marc Ansawdd Tryloywder gan CoPaCC am y drydedd flwyddyn yn olynol. Rhoddir y wobr am wneud gwybodaeth yn hawdd i'r cyhoedd gael gafael arni. Rwyf yn credu yn gryf ym mhwysigrwydd bod yn hollol agored ynglŷn â'r hyn y mae fy swyddfa a myfi fy hun yn ei wneud, felly mae cael y marc ansawdd hwn am y drydedd flwyddyn o'r bron yn golygu llawer i mi.

# Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy nghyfrifoldebau craidd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw:

1. **Sicrhau cynnal a chadw heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru**
2. **Dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am weithredu ei swyddogaethau**
3. **Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd**
4. **Cydweithredu gyda chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ledled ardaloedd heddluoedd**

## Heddlu effeithlon ac effeithiol

Ers i mi ddod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn 2016, rwyf wedi ceisio sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol drwy'r strategaeth a osodwyd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017 – 2021 ac, yn benodol, drwy ei bum blaenoriaeth heddlu a throsedd strategaethol:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Trefnedig
- Cam-drin Rhywiol (sy'n cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant)
- Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Er y gellir ond gwneud asesiad ynghylch a wyf wedi cyflawni'r swyddogaeth hon ar ddiwedd fy nhymor, arolygir effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu yn flynyddol gan HMICFRS yn yr asesiad PEEL.

Cynhaliwyd yr Archwiliad Iechyd Meddwl 'Picking up the Pieces' yn ystod y cyfnod hwn. Roeddwn yn hynod fodlon gyda chanfyddiadau'r adroddiad hwn gan ei fod yn adnabod y galw diangen cyfredol sydd yn cael ei roi ar heddluoedd oherwydd methiant gwasanaethau eraill. Rwyf yn parhau i dderbyn diweddariadau ar y galw a osodir ar yr heddlu ar y Bwrdd Gweithredol Strategol.




Mae fy swyddfa a HGC yn gweithio yn agos gyda sefydliadau eraill i geisio gwella eu cyd ddealltwriaeth o iechyd meddwl. Mae'r cydweithrediadau hyn yn gweithio ar lefel strategol i ddylanwadu ar gyfeiriad gwasanaethau ac ar lefel fwy tactegol i ddatrys problemau penodol. Ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mae gweithwyr Brysbennu Iechyd Meddwl wedi cael eu recriwtio a byddant yn gweithio yn uniongyrchol o Ystafell Reoli'r Heddlu, bydd hyn yn gwella gallu i gael gwybodaeth a chyngor amserol.

Hefyd yn ystod y cyfnod hwn roedd Troseddau yn Erbyn Pobl Hŷn yn fater o archwiliad HMICFRS. Archwiliwyd Heddlu Gogledd Cymru fis Tachwedd 2018 ac ym mis Chwefror 2019. Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn un o chwe heddlu a gafodd eu harolygu i ffurfio canfyddiadau'r archwiliad thematig hwn. Adnabuwyd Brysbennu Dyrannu Troseddau a ddefnyddiwyd gan yr Heddlu fel proses arfer gorau gan ei fod yn rhoi sgôr dangosol i alluogi penderfyniadau da gael eu gwneud ynghylch pa swyddogion sydd yn y lle gorau i ymchwilio troseddau. Cydnabuwyd tra ei bod dal yn eithaf newydd, mae gan y system y potensial i wella ymchwiliadau troseddau ac mae wedi denu adolygiad oddi wrth nifer o heddluoedd eraill yn y DU.

Cyhoeddwyd Datganiad Rheoli'r Heddlu cyntaf fis Mai 2018 a oedd yn cynnig trosolwg o ofynion cyfredol a gofynion y dyfodol. Yn y cyfnod ymgynghori cychwynnol cynlluniwyd Datganiadau Rheoli'r Heddlu i leihau baich archwiliadau ar heddluoedd. Yn anffodus nid yw cyflwyno Datganiadau Rheoli'r Heddlu wedi lleihau'r lefel o waith sydd i'w ddisgwyl gan yr Heddlu ac mewn gwirionedd mae wedi cynyddu'r galw hwn. Mynegais fy mhryder yn ymwneud â'r galw ychwanegol hwn fel rhan o fy ymateb ymgynghorol i HMICFRS fis Rhagfyr 2018 a byddaf yn parhau i godi'r materion hyn.

## Dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol

Y prif ddull yr wyf yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol yw drwy Fwrdd Strategol Gweithredol yr wyf yn ei Gadeirio ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau.

Mae'r Bwrdd hwn yn cyfarfod yn rheolaidd ac rwyf yn derbyn adroddiadau ar nifer o agweddau o swyddogaethau'r Prif Gwnstabl gan gynnwys ystadegau troseddau ar gyfer y cyfnod cyn y cyfarfod, crynodeb perfformiad misol (yn cynnwys gwybodaeth perfformiad lleol), adroddiadau ariannol, canfyddiadau holiaduron swyddogion a staff a bodlondeb y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi gofyn am ddiweddariadau cyson ar y Defnydd o Rym, Gofal nid y Ddalfa, Adnoddau Dynol a datblygiad cynaliadwy i'w hystyried gan y Bwrdd hwn.

Mae craffu pellach ar yr Heddlu yn cael ei wneud gan fy Mwrdd Craffu Safonau Proffesiynol, Panel Craffu Amlasiantaeth, y Cydbwyllgor Llywodraethu, Panel Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa ac amryw ymarferion samplo ar hap. Rwyf wedi rhoi mwy o wybodaeth am fy rôl craffu a'r gefnogaeth sydd gennyf ar fy ngwefan.

Mae llawer o drafodaethau, ymweliadau a heriau yn digwydd bob dydd i sicrhau bod yr Heddlu a phartneriaid eraill yn canolbwyntio ar yr amcanion plismona allweddol sydd wedi cael eu hadnabod yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.



## Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd

Mae'n glir i mi er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol wedi eu gosod allan yn fy Nghynllun, bod cefnogaeth ein partneriaid yn hanfodol – ni all yr heddlu ddelio â'r materion hyn yn ynysig.

Mae fy swyddfa a minnau yn aelodau o'r pwyllgorau a'r byrddau canlynol:-

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
- Bwrdd Merched Mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Bwrdd Arweiniad Rhanbarthol
- Grŵp Partneriaeth Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern
- Bwrdd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).
- Bwrdd Cenedlaethol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod)
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan
- Cydbwyllgor Goruchwylio'r Gogledd Orllewin

Trwy'r fforymau hyn gallaf weld amcan partneriaeth effeithiol yn cael eu cyflwyno ac yn nodi cyfleoedd lle gallwn wella sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, rhannu gwybodaeth berthnasol a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonedd y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd.

Yn ystod y cyfnod hwn lansiais gynllun newydd, y Gronfa Ymyrraeth Gynnar sydd wedi ei hanelu'n benodol at gefnogi prosiectau ymyrraeth gynnar o fewn yr ardal. Mae'n cydnabod bod gan yr Heddlu rôl allweddol mewn cyflwyno ymyrraeth gynnar yn lleol ac mewn safle unigryw i adnabod plant, teuluoedd neu unigolion sydd angen cefnogaeth. Mae ymyrraeth gynnar yn cynrychioli dull deallus tuag at wario. Mae'n gofyn am fuddsoddiadau bach i ddelio â gwraidd y broblem yn hytrach na chostau llawer mwy wrth ddelio â sgil effeithiau. Mae'n caniatáu i ni weithredu mewn modd llai ymwthiol, mwy cost effeithiol - drwy raglen i rieni, er enghraifft, costau yn ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin sylweddau, plant mewn gofal, plant yn colli ysgol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd y costau mwyaf sylweddol. Mae Cronfa Ymyrraeth Gynnar hefyd wedi ychwanegu gwerth at agenda Profiad Niweidiol Yn Ystod Plentyndod. Rwyf wedi sicrhau bod £100,000 ar gael bob blwyddyn ar gyfer y 3 blynedd nesaf i ariannu nifer o brosiectau gyda'r prif ffocws ar ymyrraeth gynnar yng nghymunedau Gogledd Cymru. Gellir gweld y cyllid a neilltuwyd yn 2018/19 yn adran Gomisiynu'r adroddiad hwn.

# Cydweithredu gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill

Mae cydweithredu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill i ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd yn swyddogaeth bwysig ac yn cyfrannu tuag at gyflwyno'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ceisio cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gael cyfarfodydd cyson gyda fy nghyd Gomisiynwyr a'u Prif Gwnstabliaid i drafod diddordebau cyffredin a materion trawsffiniol yn benodol.

Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r gwaith ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr o bwysigrwydd arbennig i blismona Gogledd Cymru gan ei fod yn agos yn ddaearyddol a golyga hyn bod gennym flaenoriaethau ar gyfer taclo trosedd difrifol a threfnedig, yn ogystal â chynnig cydweithrediad gweithredol.

Rwyf yn parhau i gael fy mhlesio gan ganlyniadau a gyflawnir gan Uned Trosedd Trefnedig Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr (Titan). Mae'n enghraifft ardderchog o weithio ar y cyd yn cyflwyno canlyniadau gwirioneddol sy'n cadw cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel.

Yng Nghymru, mae'r cydweithredu llwyddiannus o dan arweiniad y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a sefydlwyd i daclo Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod wedi gweld canlyniadau ardderchog a gweithlu trawma wybodus ar draws Gogledd Cymru. Cydweithiodd y Comisiynwyr HTh yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn gan sicrhau £1.7m o'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid.

Arweiniwyd ymgyrch dros gyfnod Nadolig 2018 rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru gan Heddlu Gogledd Cymru er mwyn targedu gyrwyr sy'n yfed a gyrru a gyrru ar gyffuriau. Gwnaed 500 o arestiadau yn y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2018 a 1 Ionawr 2019.

Mae'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn parhau i gydweithio ar gyflwyno Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Troseddau Cenedlaethol, Uned Troseddau Bwyd Gwyllt Cenedlaethol, Uned Genedlaethol Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu a Diogelu Data a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Balisteg Cenedlaethol.




Rwyf yn aelod o **Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CCHTh / APCC)**. Corff cenedlaethol yw'r **CCHTh** sy'n cynorthwyo Comisiynwyr i wneud y gorau o'u gallu i ddylanwadu ar lefel genedlaethol a chyflawni eu dyletswyddau statudol a blaenoriaethau plismona. Drwy rannu arfer da ac adnabod cyfleoedd i weithio ar y cyd, a thalu am wasanaethau ar y cyd, mae'r **CCHTh** yn cynorthwyo comisiynwyr i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rwyf yn eistedd ar Fwrdd y CCHTh ac rwyf hefyd yn Ddirprwy Arweinydd ar gyfer Portffolio Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau.

# Blwyddyn o ymgysylltu

Rwyf yn cynrychioli ein cymunedau i gyd ar draws Gogledd Cymru yn sicrhau bod eu gwasanaeth plismona mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Rwyf felly yn rhoi pwysigrwydd mawr ar fynd allan o'r swyddfa a chwrdd â phobl ar bob cyfle. Rwyf felly ond yn rhoi cipolwg o rhai o'r digwyddiadau yr wyf wedi eu cynnal neu eu mynychu yn ystod 2018/19.

## Ynys Môn

- Ymweliad â Phorthladd Caergybi gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- Sioe Amaethyddol Ynys Môn
- Ymweld â'r prosiect Llywio Cymdeithasol ar Ynys Môn

## Gwynedd

- Sioe Amaethyddol Nefyn
- Cyngerdd Elusennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghadeirlan Bangor
- Sioe Amaethyddol Meirionnydd
- Ymweld â Chanolfan y Digartref, Bangor
- Digwyddiad Cyfiawnder mewn Diwrnod gyda PACT
- Gwobrau Trechu Trosedd a Gwasanaeth Cymunedol Uchel Siryf Gwynedd

## Conwy

- Seminar Iaith Gymraeg. Cynhadledd i bwysleisio llwyddiannau yn y blynyddoedd diweddar drwy hyrwyddo dwyieithrwydd yn y sefydliad a datblygu a chefnogi'r defnydd o Gymraeg yn y gweithle.
- Ymweld â Mosg Cyffordd Llandudno.
- Digwyddiad brecwast gyda Chlwb Busnes Gogledd Cymru
- Digwyddiad Protocol Herbert. Os yw perthynas neu ofalwr yn poeni am unigolyn sy'n byw gyda dementia yn gofidio y gall yr unigolyn hwnnw fynd ar goll, gallent lawrlwytho, llenwi a chadw copi o'r ffurflen Protocol Herbert.

## Sir Ddinbych

- Digwyddiad Lansio Crime Stoppers i dargedu gweithgarwch llinellau cyffuriau yng Ngogledd Cymru
- Ymweld â Dinbych yn Blodeuo – Eich Cymuned Eich Dewis
- Siaradwr Gwadd yng nghynhadledd Llinellau Cyffuriau Cymorth Cymru yn y Rhyl

## Sir y Fflint

- Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Digwyddiad Rhuban Gwyn
- Digwyddiad Rainbow Biz yn Dathlu Gwirfoddolwyr

## Wrecsam

- Siaradwr gwadd yng nghynhadledd Bawso ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
- Twrnamaint Pêl-droed Trosedd Casineb Bellevue yn Ysgol Clywedog
- Gwobrau Trechu Trosedd a Gwasanaeth Cymunedol Uchel Siryf Gwynedd.

### Sioeau Amaethyddol a Chenedlaethol

Mae misoedd yr haf yn rhoi cyfle i mi fynd allan a siarad â'm cymuned leol yn y sioeau amaethyddol a chenedlaethol. Maent yn rhoi cyfle gwych i glywed am broblemau lleol, pryderon y cyhoedd a dod i adnabod pobl ar draws Gogledd Cymru.

### Y Trydydd Sector

Mae'n bwysig iawn i mi ymweld ag asiantaethau trydydd sector i weld eu cyfraniad ardderchog i'n cymunedau. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau i bob aelod o'n cymdeithas ac yn rhan allweddol o weithio mewn partneriaeth.

### Grwpiau Cymunedol

Yn ychwanegol i asiantaethau'r trydydd sector mae fy Nirprwy a mi wedi cael y fraint o fynychu nifer o grwpiau cymunedol o Ynys Môn i Wrecsam. Rwyf yn teimlo ei bod hi'n hanfodol i ddangos fy nghefnogaeth i'r grwpiau hynny sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd at bob oed yn ein cymdeithas.

# Blaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd - Adroddiad Cynnydd 2018/19

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf yn gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru. Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw wedi ei osod allan yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am bob mater gweithredol a chyflawniad fy Nghynllun.

Mae fy amcanion heddlu a throsedd wedi cael eu datblygu mewn ymateb i'r meysydd sydd o'r bygythiad, risg neu niwed mwyaf i gymunedau Gogledd Cymru. Maent hefyd wedi cael eu hysbysu gan broses ymgynghorol ddwys. Rwyf wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

- **Cam-drin Domestig**
- **Cam-drin Rhywiol**
  (yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant)
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Trosedd Trefnedig**
- **Cyflawni Cymdogaethau Diogelach**

Yn ychwanegol, yn 2018/19 cyflwynais nod cyffredinol o **'leihau camfanteisio troseddol pobl fregus'**. Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn gosod allan y gweithrediadau penodol y gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru eu cymryd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Yr hyn sydd o bwys yw'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth i ymdrin â nhw. Mae holl feysydd blaenoriaeth yn cyflwyno problemau sydd tu hwnt i blismona a gellir ond cyflwyno ymateb effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth effeithiol.

## Cam-drin Domestig

Yn 2018/19 sefydlwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn allanolyn yn genedlaethol lle mae defnyddio Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Gorchmynion Diogelu Trais Domestig (DVPN a DVPO) yn y cwestiwn. Cyflawnodd fy swyddfa ddarn o waith er mwyn deall effaith DVPO yn well ac ymddangosodd hyn i fod yn faes lle mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud pethau yn wahanol i heddluoedd eraill. I ddweud y gwir mae'r Heddlu yn ymddangos i fod o flaen nifer o heddluoedd mawr yn nhermau niferoedd DVPO.

Canfuwyd bod defnydd a cheisiadau DVPN yn gryf iawn yng Ngogledd Cymru, ac o ganlyniad yn 2018/19 gwelwyd ceisiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r llysoedd gyda chefnogaeth ein Partneriaid Cyfiawnder Troseddol. Roedd yr adborth a gafwyd fis Tachwedd 2018 yn bositif ac yn cefnogi'r dull DVPN, mae adborth ac ymgynghoriad dioddefwyr yn parhau ac rydym yn aros i gael y canlyniadau. Rydym yn sicr bod y dacteg hon yn beirianwaith cryf yn gyffredinol i leihau troseddwyr cam-drin domestig rhag ail-droseddu.

Rhagdybiais fod stelcio ac aflonyddu yn grŵp troseddu a fyddai'n parhau i gynyddu oherwydd riportio cyfathrebiadau mwy maleisus a newidiadau yn y rheolau cyfrif o fis Ebrill 2018. O ganlyniad, rwyf wedi craffu ar y maes hwn yn fanwl er mwyn sicrhau bod stelcio ac aflonyddu, yn ogystal ag ymddygiad gorfodol a rheoledig yn cael eu hymdrin mor effeithiol â phosib gan yr Heddlu.

Bu cynrychiolydd o fy swyddfa yng nghynhadledd "Reporting Stalking: Best Practice in Stalking Cases" gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh yn Llundain, ac o ganlyniad i fod yn y gynhadledd hon mae gwaith yn mynd yn ei flaen i sefydlu faint o bobl a arestiwyd hyd yn hyn eleni, ac wedi eu cyhuddo o droseddau stelcio yng Ngogledd Cymru yn dilyn hyn; pa gefnogaeth benodol sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr stelcio yng Ngogledd Cymru; ydy Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru mewn achosion stelcio; sut mae swyddogion a staff yr ystafell reoli yn cael eu hyfforddi i adnabod ymddygiad stelcio; ac ar ôl i stelcio gael ei adnabod oes ymateb aml-asiantaeth i anghenion y dioddefwyr ac ymddygiad y troseddwyr?

Mae craffu o'r fath yn cynnwys sicrhau bod camau priodol yn digwydd i gynnig hyfforddiant cyfredol i swyddogion yn y maes hwn. Mae'r Coleg Plismona eto i gyhoeddi Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Stelcio ac Aflonyddu. Serch hynny asesais fod y gwaith hwn o'r pwysigrwydd mwyaf er mwyn gwella gwasanaeth i ddioddefwyr y troseddau hyn ac rwyf yn falch o nodi bod yr Heddlu yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn. Tra bod yr Heddlu yn gwneud cynnydd da iawn yn y maes hwn byddaf yn parhau i graffu ei berfformiad. Mae'n braf gweld bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cwblhau holl argymhellion archwiliad Stelcio ac Aflonyddu HMICFRS.

Yn ystod y cyfnod hwn mae gwaith sylweddol wedi digwydd yn cyflwyno Fframwaith Perfformiad Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y rhanbarth. Dyma'r tro cyntaf i'r ardal gael llun strategol llawn ar gyflawni gwasanaethau cam-drin domestig.

Cwblhawyd Adolygiad MARAC Gogledd Cymru ac ystyriwyd yr argymhellion. Gweithiais gyda phartneriaid drwy Fwrdd VAWDASV Gogledd Cymru i wella gwasanaethau MARAC ar draws y rhanbarth, i edrych ar gyflwyno grŵp goroeswyr, mwy o hyfforddi o gwmpas ymddygiad gorfodol a rheoledig a darpariaeth fwy cyson o raglenni ymyrraeth i ddioddefwyr, yn cynnwys dargyfeirio o'r ddalfa.

Cwblhawyd yr arolwg bodlondeb a hyder dioddefwyr Cam-drin Domestig a bu cais twf ar gyfer adnoddau ychwanegol yn llwyddiannus er mwyn sefydlu tîm mewnol. Mae'r tîm wedi ei leoli o fewn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr ac mae'r canlyniadau yn gymorth i roi gwybod i'n strategaeth cam-drin domestig ac yn ein galluogi ni i benderfynu pa gefnogaeth sydd angen ar ddioddefwyr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol.



## Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)

Mae rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner yn effeithiol ac amserol yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE). O ganlyniad i hyn mae Heddlu Gogledd Cymru a'i bartneriaid wedi cytuno ar Brotocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol yng nghyswllt Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Plant Ar Goll A Phlant Wedi Eu Masnachu.

Fel rhan o fodloni fy nghyfrifoldebau craffu, rhoddwyd gwybodaeth i'm swyddfa am archwiliad rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gweithiwr Cymdeithasol CSE Rhanbarthol achosion CSE. Roedd yr archwiliad hwn yn edrych ar linellau amser ymchwiliadau ac unrhyw rwystrau a brofwyd ar draws ardal Gogledd Cymru. Cyflwynwyd canlyniadau'r archwiliad i Fwrdd Gweithredol CSE, yr wyf yn aelod ohono, i ddylanwadu ar arferion gwaith ar draws Gogledd Cymru.

Mae cysylltiadau amlwg rhwng atal a thaclo CSE a'r Agenda Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod y cyfeiriaf ato mewn adrannau eraill o fewn yr adroddiad. Mae oedolion a gafodd eu cam-drin yn gorfforol neu yn rhywiol fel plant neu a gafodd eu magu mewn cartrefi lle'r oedd trais domestig neu gam-drin alcohol neu gyffuriau yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel oedolion. Mae canlyniadau o astudiaeth gyntaf Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) Cymru yn dangos fod pobl sy'n dioddef pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bedair gwaith yn fwy tebygol o yfed yn drwm pan yn oedolyn, chwe gwaith yn fwy tebygol o ysmygu a 14 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â thrais. Mae'r adroddiad hwn yn dangos mai darparu amgylchedd meithringar a diogel ar gyfer unrhyw blentyn yng Nghymru yw'r ffordd orau i sicrhau ein bod yn magu oedolion sy'n fwy iach a hapus ac yn cyfrannu at eu cymunedau a'r economi.

Cynhaliwyd adolygiad gan Gymheiriaid o'r Tîm Onyx (y Tîm CSE) fis Tachwedd 2018. Gwnaed hyn i sicrhau bod y tîm yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon ac i adnabod meysydd ar gyfer gwella a datblygu yn erbyn arfer da yn genedlaethol.

Mae'r Tîm Onyx a'r NSPCC yn parhau i weithio gyda'i gilydd i adnabod cyfleoedd i gyflwyno ymwybyddiaeth CSE a gwaith atal i'r rhai sydd fwyaf mewn peryg. Wrth symud ymlaen rwyf yn gobeithio y bydd y sesiynau ymwybyddiaeth yn cynnwys gwaith wedi ei anelu'n benodol at y gymuned LHDT.

Yn 2018/19 Heddlu Gogledd Cymru oedd â'r canran uchaf o ganlyniadau positif ar gyfer troseddau treisio o holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Cefais fy sicrhau bod y perfformiad cadarn hwn yn ganlyniad i'r ffaith fod Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal uned dreisio neilltuol, perthynas waith dda gyda'r uned benodol o fewn GEG a bod yn rhagweithiol drwy weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ymdrin â gofidion cenedlaethol fel datgelu deunyddiau heb eu defnyddio mewn ymchwiliadau o dreisio.

## Caethwasiaeth Fodern

Rwyf wedi parhau i ymroi i ymdrin â chaethwasiaeth fodern yn ystod y cyfnod adrodd. Gwnaed mwy o gynnydd yn ystod y cyfnod hwn i gynyddu a chryfhau gwaith partner er mwyn ymdrin â chaethwasiaeth fodern. Mae'r Heddlu a'm swyddfa yn aelodau allweddol o Grŵp Partneriaeth Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern ac wedi gwthio i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol bwynt cyswllt unigol i ddiweddaru'r grŵp rhanbarthol ar faterion yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern.

Yn 2018/19 cyflawnodd Heddlu Gogledd Cymru Ymgyrch Octopus, ymgyrch i ymweld â safleoedd golchi ceir ar draws Gogledd Cymru i sicrhau eu bod yn gweithredu yn gyfreithlon ac yn diogelu lles eu staff. Gweithio mewn partneriaeth oedd yr

allwedd i'r ymweliadau hyn gyda chefnogaeth Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach yr awdurdodau lleol yn dod yn ffocws gwirioneddol. Yn aml mae'n anodd cadarnhau trosedd neu fwriad troseddol gyda busnesau o'r fath. Serch hynny, roedd hi'n llawer haws canfod torri safonau masnachu a rheoliadau a oedd wedi eu gosod gan awdurdodau lleol. Arweiniodd hyn at hysbysu rhai busnesau i beidio â gweithredu hyd nes eu bod yn cydymffurfio a gwnaeth gynorthwyo i ddiogelu a chyfeirio rhai pobl fregus.

Mae ffigyrau Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol ar gyfer 2018 yn dangos i Heddlu Gogledd Cymru barhau i wneud nifer sylweddol o atgyfeiriadau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn gymharol i'w faint ac o'u cymharu â Heddluoedd eraill. O'r 88 atgyfeiriad a wnaed gan heddluoedd Cymru yn 2018, daeth 22 o Heddlu Gogledd Cymru, yr ail uchaf ar ôl Gwent. Yn ogystal gwnaeth 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i gyd atgyfeiriadau sy'n adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol a gwelliannau ym maes gweithio mewn partneriaeth.

## Trosedd Trefnedig

Roedd cynnydd arwyddocaol mewn trosedd treisgar yn 2018 gyda Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Strategaeth Drais. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod y cynnydd mewn trosedd treisgar yn gysylltiedig â throsedd treisgar a'r farchnad gyffuriau. Yn fy ymateb i'r strategaeth hon dadleuais y gallai rheoli cyffuriau leihau'r effaith y mae trosedd trefnedig yn cael ar ein cymunedau a chael gwared â'r angen i unigolion gario arfau er diogelwch.

Er bod troseddau gangiau wedi eu lleoli gan amlaf o fewn dinasoedd mae goblygiadau ehangach trosedd trefnedig drwy ecsploetio troseddol a llinellau cyffuriau wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau gwledig Gogledd Cymru a ni yw un o dderbynwyr mwyaf llinellau cyffuriau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r troseddwyr yn bennaf o Lannau Mersi. Mae tystiolaeth yn dangos bod gwahardd parhaus yn cynyddu'r lefel o drais oherwydd bob tro y bydd grŵp trosedd trefnedig yn cael ei erlyn daw grŵp arall mwy treisgar a dinistriol i gymryd ei le.

Tra fy mod yn cefnogi trin camddefnyddio cyffuriau fel mater iechyd yn hytrach na mater troseddol rwyf hefyd yn glir yn fy nghefnogaeth o Heddlu Gogledd Cymru yn targedu grwpiau trosedd trefnedig sy'n ecsploetio aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Cynhaliwyd rhai ymgyrchoedd llwyddiannus iawn yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Ym mis Mawrth 2019, gweithiodd Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd gyda Heddlu Glannau Mersi i ymdrin â melltith Llinellau Cyffuriau. Roedd hyn yn ymgyrch ar y cyd yn targedu'r cyflenwi anghyfreithlon amheus o gyffuriau Dosbarth A yng Ngogledd Cymru a Glannau Mersi a chamfanteisio troseddol ar bobl ifanc. Mae'r term "Llinellau Cyffuriau" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gangiau, grwpiau neu rwydweithiau cyffuriau sy'n cyflenwi cyffuriau o ardaloedd trefol i ardaloedd maestrefol ar draws y wlad (yn yr achos hwn, i drefi marchnad ac arfordirol Gogledd Cymru), gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol penodol neu 'linellau gwerthu'. Mae'r gweithio ar y cyd hwn yn rhan o'r arfer sefydledig gan Heddlu Gogledd Cymru wrth ymateb yn rhagweithiol i'r troseddau trawsffiniol hyn.

Fel y mae'r Astudiaeth Achos isod yn dangos roedd 2018 yn gyfnod llwyddiannus lle ddigwyddodd nifer o ymgyrchoedd proffil uchel a rhoddwyd dedfrydau sylweddol i gangiau trosedd trefnedig ar draws yr ardal.

Arweiniodd ymgyrch gyffuriau sawl miliwn o bunnau, a welodd gyffuriau dosbarth A yn cael eu cludo i Ogledd Cymru at ddedfrydu chwech ar hugain o bobl dros gyfnod o bedwar diwrnod yn Llys y Goron Yr Wyddgrug am gyfanswm o 172 mlynedd ac 11 mis o garchar.

Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru dargedu grwpiau trosedd trefnedig o Gaergybi a Llandudno fel rhan o Ymgyrch Zeus. Gweithredodd y ddau grŵp ar wahân mewn gwahanol siroedd ond gwnaethant gydweithredu i sicrhau eu bod yn gallu cyflenwi eu mannau priodol. Gwnaethant gael eu cyffuriau o grwpiau trosedd trefnedig ar Lannau Mersi a Manceinion.

Yn ystod yr ymchwiliad gwnaeth yr heddlu gasglu cyffuriau Dosbarth A a llawer iawn o Benzocaine, a ddefnyddir yn gyffredinol i chwyddo cyffuriau er mwyn cynyddu'r elw, gan ddangos graddfa'r fenter. Roedd gan yr atafaeliadau werth tybiedig o £2.7 miliwn.

Dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron, "Roedd y swm o gyffuriau a ddyrannwyd gan y ddau grŵp trosedd trefnedig yng Ngogledd Cymru yn syfrdanol. Datgelodd yr ymchwiliad bod dau grŵp trosedd gwahanol wedi dod at ei gilydd i ffurfio consortiwm proffidiol. Wrth wneud hyn roeddent yn gallu cyflenwi cyffuriau dosbarth A ar hyd coridor Gogledd Cymru ledled tair sir. Roedd hon yn fenter droseddol wedi hen sefydlu ac yn soffistigedig.



# Cyffuriau

Mae cyflenwi Cyffuriau Dosbarth A wedi ei gysylltu yn anorfod gyda throsedd trefnedig. Mae fy marn ar bolisi cyfredol cyffuriau yn hysbys i bawb. Rwyf yn cefnogi trin camddefnyddio cyffuriau fel problem iechyd yn hytrach na phroblem droseddol. Rwyf yn parhau i ymchwilio a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diwygio cyffuriau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r farchnad gyffuriau anghyfreithlon. Dros y deuddeg mis diwethaf rwyf wedi cymryd rhan mewn nifer o ymgynghoriadau a thrafodaethau yn ymwneud â chyffuriau yn cynnwys canlyniadau iechyd, adolygiad annibynnol ar gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau mewn carchardai.

Mynegais fy nghefnogaeth i reoleiddio a'r angen i leihau'r nifer o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yn y DU. Byddai rheoleiddio cyffuriau yn tynnu'r marchnadoedd cyffuriau i ffwrdd oddi wrth droseddwyr trefnedig a byddai yn ei dro yn lleihau camfanteisio ar bobl fregus o fewn ein cymunedau. Drwy hyn i gyd fy ffocws yw diogelu unigolion sy'n cael eu targedu gan drosedd trefnedig yn sgil eu cyflwr bregus.

Ym mis Mehefin 2018 aeth un aelod o'm swyddfa i'r ddadl "What Next For Drug Policy" wedi ei chyflwyno gan Crispin Blunt AS a Jeff Smith AS. Dangosodd y ddadl y twf mewn cefnogi rheoleiddio ymysg swyddogion seneddol. Roedd nifer o Aelodau Seneddol yn bresennol ac roedd hi'n braf clywed cefnogaeth yr Aelodau Seneddol a'u dealltwriaeth o'r effaith y mae cyffuriau yn ei chael ar draws y Deyrnas Unedig.

# Edrych i'r dyfodol – Polisi Cyffuriau

Dros y deuddeg mis nesaf byddaf yn parhau i ymchwilio i fanteision rheoleiddio cyffuriau a'r ffyrdd o leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Yn 2018 cynyddodd marwolaethau yn ymwneud â chyffuriau yng Nghymru a Lloegr o 16% gyda 50% o farwolaethau yng Nghymru yn cael eu hachosi gan orddosau o opiadau. Gall Naloxone ddadwneud tananadlu yn sgil gorddos opioid sydd yn ei dro yn atal marwolaethau yn sgil gorddos opioid.

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref (THN) yn nodi bod 25,767 o ddefnyddwyr opioid yng Nghymru yn 2017/18 wedi derbyn 4120 o becynnau newydd  a rannwyd yn y flwyddyn honno. Defnyddiwyd THN mewn 533 o achosion gwenwyno yn ystod 2017/18. Yn 87% o'r achosion rhoddwyd THN i drydydd parti yn hytrach na deiliad yr offer, gyda 62% o bob achos o wenwyno




yn digwydd mewn cartref preifat. Yng Ngogledd Cymru mae saith safle sy'n cynnig THN a thua 384 unigolyn sy'n cael eu cyflenwi gyda THN.

Mae Swyddogion Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi dechrau cario Naloxone Trwynol i sicrhau eu bod yn barod i achub bywydau mewn achos o orddos. Mewn rhai achosion y swyddogion heddlu yw'r cyntaf i gyrraedd wedi achos o orddos ac mae eu gallu i roi Naloxone cyn i'r gwasanaethau iechyd gyrraedd yn lleihau'r perygl o farwolaethau yn ymwneud â chyffuriau. Gall Naloxone leihau'r galw ar swyddogion yn y tymor byr drwy osgoi'r adnoddau sydd eu hangen i ddiogelu lleoliad marwolaeth yn ymwneud â chyffuriau ac archwilio'r amgylchiadau. Hefyd, wedi i'r gwasanaethau meddygol gyrraedd yn y lleoliad ni fydd angen i'r swyddogion fod yno oni bai bod yr unigolyn yn troi'n dreisgar. Mewn rhai achosion wedi i Naloxone gael ei roi mae'n achosi effeithiau ymwrthod â chyffuriau sy'n gadael rhai yn aflonydd ac angen cymorth o bosib. Gall Naloxone leihau'r galw ar swyddogion yn y tymor hir gan ei fod wedi ei brofi i gynyddu ymgysylltiad â thriniaeth pan gaiff ei ddefnyddio neu pan mae ar gael.

Yn dilyn trafodaethau cychwynnol rwyf yn hyderus y bydd swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn dechrau cario Naoloxone gyda chefnogaeth y Prif Swyddogion a Ffederasiwn yr Heddlu er mwyn lleihau'r nifer o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yng Ngogledd Cymru.

# Cyflawni Cymdogaethau Diogelach

Mae presenoldeb gweladwy'r heddlu yn atal troseddau sy'n digwydd mewn lleoliadau cyhoeddus, yn tawelu meddyliau mwyafrif y boblogaeth ac yn atgyfnerthu eu cysylltiadau â'r heddlu. Fodd bynnag, fel yr wyf yn nodi yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae yna fwy o droseddau yn cael eu cyflawni bellach ar-lein nac ar y strydoedd. Yn unol â hynny, dylai ein hadnoddau sy'n prinhau ganolbwyntio ar y meysydd o fygythiad, risg a niwed mwyaf.

Rwy'n benderfynol bod rhaid i'n hadnoddau sy'n prinhau ganolbwyntio ar feysydd troseddoldeb difrifol a bregusrwydd, felly mae bod yn weledol yn heriol iawn. Rhaid i ni wahaniaethu rhwng bod yn weledol a bod yn hygyrch.

Er mwyn sicrhau bod swyddogion a staff yn treulio gymaint o amser â phosib allan ar y strydoedd ac nid mewn gorsafoedd heddlu, yn ystod y cyfnod adrodd hwn rhoddwyd dyfeisiadau symudol newydd i 600 o ddefnyddwyr ychwanegol. Bydd y dyfeisiadau hyn yn rhoi'r gallu i ddefnyddwyr i fod allan ac o gwmpas yn fwy yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn hytrach na bod yn gaeth i'r orsaf.

Er mwyn ymgyrraedd â gweithredoedd Cynllun Cyflawni Cymdogaethau Diogelach yr Heddlu cyflwynwyd cyfarfod newydd yn ystod y cyfnod hwn. Diben y Grŵp hwn yw gweithio ar y cyd ledled yr Heddlu gyda rhanddeiliaid allweddol i wella'r ddealltwriaeth a'r cyflawniad o Blismona Cymunedol er mwyn iddo wella diogelwch cymunedol; lleihau trosedd, anhrefn a niwed; gwella canfyddiadau'r cyhoedd ac adeiladu cysylltiadau cryfach o fewn cymunedau.

Offer allweddol wrth gyflawni cymdogaethau diogelach yw stopio a chwilio. Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd fy nyletswydd i yw rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r cyhoedd yn ymwneud â Stopio a Chwilio (yn enwedig gyda'r ymgyrch "Gwybod Eich Hawliau"). Mae'r wybodaeth ar gael ar fy ngwefan.

Yn ystod y cyfnod hwn mi wnes i gyfarfod â'r Prif Gwnstabl Andy Cook o Heddlu Glannau Mersi o ran ei safbwynt ar Stopio a Chwilio. Roedd Prif Gwnstabl Cook – arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar drosedd trefnedig – yn y penawdau pan wnaeth ddadlau bod cwymp yn y defnydd o Stopio a Chwilio wedi creu cynnydd mewn trosedd treisgar. Mae'r defnydd o stopio a chwilio bron wedi haneru i 304,000 y flwyddyn ers 2015, ond mi wnaeth Glannau Mersi fynd yn groes i'r duedd genedlaethol drwy gynyddu'r defnydd o'r dacteg mewn ymateb i gynnydd mewn ymosodiadau gynnau a chyllyll yn y rhanbarth.




Nododd HMICFRS yn ei adroddiad Stopio a Chwilio y "dylai'r heddlu wella eu prosesau ar gyfer craffu ystod eang o ddata stopio a chwilio a gwybodaeth i gael dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng oed, rhywedd, ethnigrwydd a'r nifer o ddigwyddiadau stopio a chwilio sy'n arwain at ganlyniadau a oedd yn gysylltiedig â'r rheswm gwreiddiol dros chwilio".

Ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru i'r adroddiad hwn yn y ffyrdd canlynol:

1. Cynyddu'r manylion yn ei adroddiad Stopio a Chwilio Hanner Blwyddyn
2. Newid y ffurflen Stopio a Chwilio i alluogi'r cyswllt rhwng y sail wreiddiol a'r canlyniad fod yn benodol.
3. Adnewyddu'r wefan Stopio a Chwilio i alluogi'r cyhoedd i roi adborth yn ddienw.

Roeddwn yn falch o weld ymateb positif Heddlu Gogledd Cymru i'r adroddiad a'r cynnydd yn y defnydd o stopio a chwilio. Mae'r defnydd hwn yn cael ei graffu'n rheolaidd drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Roedd 2018 / 19 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Heddlu Gwirfoddol (HG) Heddlu Gogledd Cymru. Cynhwyswyd recriwtio Swyddogion Gwirfoddol am y tro cyntaf o fewn Cynllun Gweithlu'r Heddlu. Parhaodd sefydliad yr Heddlu i dyfu er gwaethaf colli nifer fawr o swyddogion i'r Heddlu cyflogedig gan gyrraedd uchafbwynt o 205 o swyddogion gyda'r nifer cyfartalog yn 194 dros y flwyddyn.

Mae'r cynnydd hwn yn mynd yn groes i'r duedd genedlaethol sydd wedi gweld cwymp cyson yn y nifer o Swyddogion Gwirfoddol ar draws llawer o Gymru a Lloegr. Rhyngddynt mi wnaeth y swyddogion hyn wirfoddoli dros 56,500 o oriau yn cefnogi ein cymunedau, yn cyflawni amrywiaeth eang o ddyletswyddau. Roedd hyn ar gyfartaledd dros 24 awr y swyddog y mis, tipyn mwy na'r disgwyliad cenedlaethol o 16 awr y mis. Dyma Gyfwerth Amser Llawn sy'n cyfateb i gael 32 swyddog heddlu amser llawn.




Mae llawer iawn o'r amser hwn, bron i hanner, yn cael ei dreulio yn cefnogi a darparu Plismona Ymateb o fewn Gwasanaethau Plismona Lleol. Serch hynny, mae ein harbenigedd wedi cynyddu yn ogystal â'n huchelgais i gael ein swyddogion gwirfoddol wedi eu hintegreiddio yn llwyr i'r gweithlu yn gyffredinol. Mae ein harbenigeddau'n cynnwys, Plismona'r Ffyrdd (RPU), Unedau Troseddwyr Rhywiol a Threisgar (SAVOU), ymchwiliadau troseddau rhyw, adnabod troseddwyr pêl-droed ac Ymchwiliadau Ariannol (FIU).

Mewn arolwg ar lefel cenedlaethol a wnaed ar ran y Swyddfa Gartref cawsom ein henwi fel yr Heddlu Gwirfoddol gorau o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau ac rydym yn arbennig o falch o'r ffaith bod ein cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ystod y cyfnod adrodd yn agos iawn at fod yn gydbwysedd perffaith o 51% o ddynion a 49% o ferched. Mae hyn yn adlewyrchu ein dull o recriwtio.

Yn ychwanegol at yr Heddlu Gwirfoddol, mae gan Heddlu Gogledd Cymru tua 125 o gadetiaid yr heddlu. Mae'r Cadetiaid wedi bod yn rhan o nifer o ddigwyddiadau ledled yr heddlu lle maent wedi cynorthwyo gyda phlismona:

- Sul y Cofio – rhoi cymorth i Dimau Cymdogaethau Diogelach lleol yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru mewn digwyddiadau lleol.
- Yr Eisteddfod Genedlaethol – yn cefnogi'r digwyddiad fel gwirfoddolwyr.
- Ymgyrch Sceptre – Ymgyrch genedlaethol wedi ei hanelu at leihau troseddau yn ymwneud â chyllyll, lle mae Cadetiaid wedi bod yn rhoi cymorth gyda digwyddiadau rhagweithiol.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r holl wirfoddolwyr yn Heddlu Gogledd Cymru am eu cefnogaeth ragorol yn cadw ein cymunedau yn ddiogel.

# Crynodeb o Ganlyniadau

Mae'r perfformiad wedi ei fesur drwy gymharu 2018/19 yn erbyn y flwyddyn flaenorol sef o fis Ebrill 2017 tan fis Mawrth 2018 (os nad yw wedi nodi) er mwyn adnabod unrhyw feysydd sy'n achosi pryder sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy nghraffu ar y Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif wrth gyflawni fy Nghynllun.

## Cam-drin Domestig – crynodeb perfformiad 2018/19

- **Dioddefwyr Mynych o fewn 12 mis** – gwelwyd cynnydd o 7.7% yn 2018/19. Roedd 13.3% yn fwy o ddioddefwyr gwrywaidd eleni na'r llynedd, i fyny o 2410 i 2731.
- **Troseddwyr Mynych o fewn 12 mis** – gwelwyd lleihad o 30.8% yn 2018/19. Parhaodd y troseddwyr mynych ar gyfartaledd is ers diwedd 17/18. Roedd y troseddwyr gan fwyaf yn y grŵp 25-34 oed.
- Arhosodd **Sgôr Risg Strategol** yn UCHEL yn ystod 2018/19.
- **Hyder a Boddhad Dioddefwyr Cam-drin Domestig** – Rhwng 28 Tachwedd a 28 Chwefror 2019 cynhaliwyd 135 o arolygon Cam-drin Domestig. Mae'r canlyniadau yn dangos lefelau boddhad ar 89.1% ar gyfer Cyswllt; 89.3% am Weithredu; 97.8% am Driniaeth; 69.6% am Ddilyniant a 85.2% ar gyfer Profiad Cyfan. Nid oes problemau diogelu.
- **Erlyniadau Llwyddiannus** - Ym mis Mawrth 2018 roedd 81.3% o'r achosion llys cam-drin domestig yn llwyddiannus o gymharu â 77.3% y flwyddyn flaenorol hyd at y dyddiad hwn.
- **Hysbysiad amddiffyn trais domestig (DVPN)** – Bu cynnydd o 16.6% o ddigwyddiadau cam-drin domestig lle rhoddwyd o leiaf un hysbysiad amddiffyn trais domestig.
- Cafwyd tystiolaeth ar gamera o **Gamerâu Corff** yn 10.1% o achosion cam-drin domestig. Mae hyn yn codi i 29% pan fydd DVPN wedi ei roi.

Yn ystod 2018/19 roedd y defnydd o DVPN yn gryf iawn yng Ngogledd Cymru, gyda cheisiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r llysoedd gyda chefnogaeth. Roedd yr adborth dioddefwyr a gafwyd fis Tachwedd 2018 yn bositif ac yn cefnogi'r dull DVPN, mae adborth dioddefwyr pellach ac ymgynghoriad yn parhau ac mae'r canlyniadau i ddod. Mae'r dacteg hon yn cael ei hystyried yn fecanwaith cryf yn y broses o leihau'r nifer o droseddwyr Cam-drin Domestig mynych.

Parhaodd yr adrodd ar ddioddefwyr mynych gynyddu yn ystod y cyfnod hwn fel y disgwylid ac fe'i cefnogir gan newid ym maes adnabod cofnodi troseddau ar draws y sbectrwm troseddau Cam-drin Domestig. Cafodd y cynnydd yn y gwaith effaith ar swyddogion Cam-drin Domestig, llwyth gwaith MARAC a llwyth gwaith asiantaethau cefnogi fel Cymorth i Ferched (Cymru) a Gwasanaethau IDVA. Mae adolygiad MARAC ar draws asiantaethau yn dechrau gyda'r bwriad o ddeall sut i reoli'r galw yn fwy effeithlon a pharhau i gefnogi dioddefwyr risg uchel.


Mae gwaith yn parhau i sefydlu grŵp SEEDS (Survivors Empowering and Educating Services) a fydd yn defnyddio profiad dioddefwyr/goroeswyr cam-drin domestig i wella polisi, hyfforddi ac arferion gwaith y byddaf yn adrodd arnynt yn fy adroddiad 2019/20.

Mae'r Heddlu wedi datblygu pecyn ymyrraeth troseddwr ar gyfer troseddwyr Cam-drin Domestig. Mae hyn nawr yn destun cynllun cyflawni a chynllun ymgynghori gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru ac yn adnabod dwy ardal beilot. Teitl posib ar y pecyn yw ADAPT – (Asiantaethau Gorchwylio Troseddwyr Cam-drin Domestig). Bydd hyn yn canolbwyntio ar droseddwyr cam-drin domestig parhaus sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n fwy tebygol na pheidio i barhau i gyflawni troseddau cam-drin domestig.




## Caethwasiaeth Fodern – crynodeb perfformiad 2018/19

- **Adolygiadau Cofnodion Caethwasiaeth Fodern** – Arhosodd cydymffurfiaeth gydag ymchwiliad effeithiol, diogelu a gofal dioddefwyr drwy'r adolygiadau cofnod ar 100%.
- Ym mis Mai 2018 **arhosodd y Sgôr Risg Strategol** yn UCHEL.
- **Diogelu Dioddefwyr** – Yn ystod 2018-19 roedd 72% o droseddau a riportiwyd mewn perthynas â chaethwasanaeth domestig, 6% i hwyluso teithio a 22% yn gweithio gorfodol.





- Ym mis Chwefror 2019, roedd yna 37 **o atgyfeiriadau NRM** hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn o 26 digwyddiad.
- Yn ystod 2018/19 unodd uned Caethwasiaeth Fodern yr Heddlu gyda'r Tîm Onyx i greu Tîm Ecsploetiaeth newydd. Cynyddodd waith partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yng nghyswllt Llinellau Cyffuriau. Cyhoeddodd yr uned MDS yr 'Unseen App' ar bob ffôn gwaith.
- Gwnaed cynnydd yn y gwaith atal gyda chydweithwyr yn y maes Addysg gyda rhaglen gyflawni wedi ei chytuno arni ar gyfer ysgolion yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth o gynhyrchiad drama wedi ei ariannu gan y Bwrdd Diogelu.
- Sicrhawyd bod arian ar gael yng nghyswllt Camfanteisio'n Droseddol ar Blant i'w gyflwyno i arweinwyr addysg a darparwyr cartrefi gofal.
- Cylchredodd Uned MDS fwletin ledled yr heddlu i addysgu swyddogion yng nghyswllt camfanteisio troseddol. Maent hefyd yn parhau i gylchredeg bwletinau yng nghyswllt meysydd eraill o Gaethwasiaeth Fodern er mwyn i swyddogion adnabod arwyddion Caethwasiaeth Fodern.
- Lansiodd Schools Beat ddeunydd hyfforddi ar Linellau Cyffuriau yn targedu pob ysgol yng Ngogledd Cymru – bydd penaethiaid ysgolion wedyn yn eu cyflwyno yn eu gwasanaethau boreol ayb.
- Mae enghraifft o arfer da yn cyfeirio at yr ymweliad ar y cyd â lle golchi ceir yn Ninbych ar 21/3/19 gyda Chyngor Sir Ddinbych. Arestiwyd y perchennog am droseddau Masnachu Pobl ac aethpwyd â Cheisiwr Lloches aflwyddiannus i'r ganolfan dderbyn. Defnyddiodd Iechyd Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych eu pwerau i gau'r busnes golchi ceir oherwydd gosodiadau trydanol peryglus.
- Gyda chymorth Hafan o Oleuni/Consortiwm Masnachu Prydeinig (BRC) a Byddin yr Iachawdwriaeth llwyddodd yr heddlu i gael adeilad yn ardal Sir Ddinbych i'w ddefnyddio fel canolfan dderbyn. Doedd dim un i gael o'r blaen ac mae'r adnodd yn ardderchog.




# Trosedd difrifol a threfnedig – crynodeb perfformiad 2018/19

- Ym mis Mai 2018 **arhosodd y Sgôr Risg Strategol** ar gyfer Cyflenwad Trefnedig o Gyffuriau Dosbarth A yn UCHEL ac arhosodd Troseddau Seibr yn GANOLIG.
- **Aflonyddu Grwpiau Trosedd Trefnedig** - Roedd Arestiadau, Cyhuddiadau a Chanlyniadau 1-8 yn sefydlog drwy gydol y flwyddyn gyda chynnydd dramatig fis Ionawr yn sgil achosion yn dod i'r llys.




- **Atafaelu Asedau**




## Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau

Comisiynwyd "Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau" gan y Bwrdd Cymunedau Diogelach o ganlyniad i Adolygiadau Lleoliadau'r Swyddfa Gartref. Bydd yr Asesiad Anghenion yn arwain at asesiad amlasiantaeth holistaidd o fygythiad Llinellau Cyffuriau a bydd yn hysbysu argymhellion. Mae'r gwaith wedi dechrau ac mae'r pwyntiau cyswllt unigol (SPOC) o asiantaethau a sefydliadau adnabyddedig wedi cael eu briffio a'u tasgio. Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl a Holiadur i'w gwblhau gan y pwynt cyswllt unigol (SPOC) ym mis Ionawr 2019 a chynhyrchwyd adroddiad drafft ym mis Ebrill 2019.


## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant – crynodeb perfformiad 2018/19

- Ym mis Mai 2018 **y Sgôr Risg Strategol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)** am droseddau cyswllt oedd sgôr CANOLIG, fel y gwnaeth sgôr ar gyfer Delweddau Anweddus o Blant.

## Treisio




Mae'r data a osodwyd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn (deuddeg mis hyd at fis Ionawr 2019) yn dangos mai o blith y pedwar deg tri heddlu, Heddlu Gogledd Cymru oedd y 10fed uchaf o ran riportio troseddau treisio.




Mae'r nifer o ddigwyddiadau CSE wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn yn bennaf oherwydd y lefelau uchel a welwyd yn hanner cyntaf 2017.

Mae'r duedd hon wedi parhau ers y cyfnod hwnnw ac wrth ysgrifennu hwn, mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r raddfa uchaf o dreisio i bob 1000 yn y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn ofid mawr i'r Prif Gwnstabl ac i mi fy hun ac mae gwaith ar hyn yn digwydd i ddeall mwy am y troseddau hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn parhaodd Heddlu Gogledd Cymru i fynychu'r chwe phanel CSE rhanbarthol. Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi newid y panel i gyfarfod MET Gweithredol (plant sydd ar goll, wedi eu hecsploetio a'u masnachu) lle mae strategaethau ar gyfer plant yn digwydd mewn un fforwm misol. Darparodd y tîm Onyx sesiynau ymwybyddiaeth i'r staff llinell flaen i gyd i wella'r gallu i adnabod y plant sydd mewn perygl o gael eu hecsploetio, cynyddu llif cudd-wybodaeth a sicrhau tarfu ar droseddwyr. Roedd y gwaith yn cwmpasu troseddau ecsploetio plant ehangach sy'n cynnwys llinellau cyffuriau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cymhelliant i gydweithio gyda phartneriaid i gael gafael ar hyfforddiant CSE achrededig yn parhau yn ffurf hyfforddiant ACESP (Ymarferwyr CSE Uwch) sy'n cael ei gyflwyno gan PACE (Rhieni yn erbyn camfanteisio ar blant) i staff Heddlu Gogledd Cymru, Conwy ac Awdurdod Lleol Ynys Môn.

Mae cwblhau cyfweliadau dychwelyd adref yn parhau i fod yn anghyson ar draws ardal y chwe Awdurdod Lleol gyda phlant mewn rhai ardaloedd lleol ddim yn derbyn cyfweliadau dychwelyd adref yn dilyn cyfnodau ar goll hyd yn oed pan maent yn agored i wasanaethau cymdeithasol. Mae hwn yn fater yr wyf yn teimlo'n gynyddol rwystredig ynglŷn ag ef ac rwyf wedi ei godi yn uniongyrchol gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u swyddogion.

### Cyflawni Cymdogaethau Diogelach – crynodeb perfformiad 2018/19

- O ran **Yr Heddlu yn Deall Materion Cymunedol**, mae Gogledd Cymru wedi aros yn 7fed yn genedlaethol gyda 73.4% am y 12 mis at fis Medi 2018.
- O ran **Yr Heddlu yn Ymateb i Faterion Cymunedol**, roedd Gogledd Cymru yn ail yn genedlaethol gyda 64.2% am y 12 mis at fis Medi 2018.

### Mentrau Datrys Problemau

Gosododd Heddlu Gogledd Cymru hwb datrys problemau ym mis Tachwedd 2018 yn cynnwys Arolygydd a 2 Gydlynydd Atal Troseddau, wedi eu cefnogi gan rwydwaith o 54 cynghorydd tactegol. Yn ystod y misoedd cyntaf cyflwynwyd 19 cynllun i'w hadolygu ac i sicrhau eu hansawdd. Mae'r prosiect wedi ei ymgysylltu yn llawn gyda'r rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys cynnal y cyfarfod rhanbarthol ym mis Ionawr. Mae'r Hwb yn rhannu arfer da yn weithredol gyda phartneriaid a heddluoedd eraill, yn cynnwys Sir Gaer gan ddefnyddio'r ffurflen PDP a ddyfeisiwyd gan Dîm Gogledd Cymru. Bu ymweliad yn ddiweddar rhwng tîm cymdogaethau yn y Rhyl a phrosiect digartref yn Birmingham.

Dechreuodd DBG Debicki gyflwyno sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad, gan roi'r symbyliad strategol a'r ddealltwriaeth o resymau am ei bwysigrwydd. Cynhaliwyd gwobrau Partneriaeth Datrys Problemau fis Medi 2019 gan bwysleisio gwaith rhagorol ar draws ardal yr Heddlu.

# Ariannu a Chyllid

## Cyllideb yr Heddlu

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am osod y gyllideb sy'n cael ei darparu i'r Prif Gwnstabl ar gyfer cyflawni plismona yng Ngogledd Cymru. Dyrannwyd cyllideb net o £144.023m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2018/19. Defnyddiwyd y £2.323m yn weddill ar gyfer fy Nghronfa'r Comisiynydd (sy'n ariannu mentrau fel diogelwch cymunedol, ymyrraeth cyffuriau a chyfiawnder ieuenctid) a hefyd am y costau yn fy swyddfa.

Tra bod grantiau llywodraethau canolog, wedi eu penderfynu gan y Swyddfa Gartref, yn cyfrif am 49% o'r cyllid, ariannwyd 51% gan drethdalwyr lleol. Mae Datganiad y Cyfrifon ar gael ar fy ngwefan.

Roedd blwyddyn ariannol 2018/19 yn heriol gyda £1.479m o doriadau wedi'u cyflawni. Ynghyd â thoriadau o £2.832m i'w cyflwyno yn 2019/20 a chan ystyried chwyddiant a phwysau eraill, mewn termau real mae'r gyllideb plismona yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd yn £33m yn llai na 2010/11. Er gwaethaf y rhagolwg mwy positif ers 2015, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol ac wrth ysgrifennu hyn mae ansicrwydd sylweddol dros ariannu ar gyfer 2020/21 a thu hwnt.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Gosodwyd cyllideb flynyddol ar gyfer 2018/19 ar £803,192 gyda chyllideb comisiynu o £1,520,306 yn ychwanegol. Yn ychwanegol, gweinyddodd y Swyddfa Grant Gwasanaethau'r Dioddefwyr o £808,731 ac mae'n gorff atebol ar gyfer grant VAWDASV o £419,200. Mae'r Swyddfa hefyd yn gorff atebol i'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau, yn derbyn £478,140 o Garchar Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf yn flynyddol tuag at y gost.

Yn 2019/20 gosodwyd y gyllideb flynyddol ar £826,196, gyda'r cynnydd ei angen ar gyfer cynnydd mewn tâl ac i sicrhau ariannu cyfraniad blynyddol o £30,000 i PACT. Mae'r gyllideb ar gyfer comisiynu yn £1,624,126 yn ychwanegol. Mae'r Swyddfa yn parhau i weinyddu Grantiau Gwasanaethau Dioddefwyr o £804,262, grantiau VAWDASV o £419,200 a'r Rhaglen Ymyrraeth Gyffuriau.

# Cyflawni Strategaeth yr Ystadau

Agorwyd adeilad newydd Pencadlys Rhanbarthol y Dwyrain yn Llai yn swyddogol ddydd Mercher 1 Mai 2019. Yn ystod y cyfnod adeiladu enillodd y prosiect 'Cleient y Flwyddyn' a 'Gwobr Oddi Ar Safle" yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2018. Ym mis Mehefin 2019, derbyniodd Galliford Try Building Ltd wobr "Canmoliaeth Uchel" yng Nghategori Datblygu Pobl am eu gwaith yn ystod yr adeiladu, a hefyd roeddwn wedi cydnabod eu gwaith yn fy ngwobrau blynyddol drwy roi'r Wobr Gwerth Cymdeithasol CHTh iddynt. Enillodd Pencadlys Rhanbarthol y Dwyrain y Wobr Cynaliadwyedd yng Ngrŵp Ystadau Cenedlaethol yr Heddlu fis Hydref 2019 ac ym mis Rhagfyr 2019 bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn derbyn y Wobr Cynaliadwyedd gan Gymdeithas Ddinesig Ardal Wrecsam am y dodrefn wedi eu hail-weithgynhyrchu/hadnewyddu sydd wedi cael eu defnyddio i ddodrefnu Llai ac sydd wedi tynnu tipyn o sylw gan sefydliadau sector gyhoeddus eraill.

Rhoddodd Liz Bryan, Rheolwr Prosiect Ystadau gipolwg o'r broses i gynulleidfa o'r sector gyhoeddus yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae Heddlu Glannau Mersi yn bwriadu ymweld â'r adeilad gyda'r bwriad o ddefnyddio'r un fethodoleg o fewn eu hadeiladau newydd nhw hefyd. Mae ein hymgynghorydd ecolegol, Dr Richard Birch, hefyd yn dymuno enwebu'r safle mewn dau gategori ar gyfer Sefydliad Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol 2020.

Daeth gorsaf heddlu canol y dref yn Wrecsam yn llawn weithredol fis Mai 2019 yn dilyn newidiadau mawr i'r hen adeilad Oriel sy'n gyfagos i lyfrgell y dref. Mae'r orsaf wedi ei lleoli mewn lle delfrydol er mwyn cynnal presenoldeb yng nghanol y dref yn dilyn datgomisiynu'r cyn Bencadlys Rhanbarthol ar safle Bodhyfryd a fydd yn cael ei werthu er mwyn ei ail-ddatblygu.

Yn ystod paratoi Strategaeth yr Ystadau nodwyd bod nifer o'r adeiladau yn cael eu tanddefnyddio a bydd cynllun i ddyfodol yr adeiladau hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod 2020. Rwyf yn cefnogi'r syniad o weithio'n hyblyg yn llawn ac yn cydnabod bod gennym lawer i'w wneud i ddatblygu'r ystâd at safonau modern. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Prif Gwnstabl a'i dîm i gyflwyno'r weledigaeth hon.




# Y rhagolwg ariannol

Er bod tipyn mwy o sicrwydd wedi bod yn y blynyddoedd diweddar, mae'r sefyllfa wleidyddol gyfredol yn golygu ei bod hi'n anodd darogan y sefyllfa ariannol ar gyfer 2020/21 a'r blynyddoedd wedyn.

Rydym wedi derbyn cadarnhad bod y grant a dderbyniwyd yn 2019/20 i wrthbwyso yn rhannol gost ychwanegol pensiynau'r heddlu yn cael ei dderbyn eto yn 2020/21; serch hynny, nid yw'r sefyllfa barhaus wedi ei benderfynu eto.

Rwyf yn cynllunio lleihau'r gronfa PFI wrth i'r cytundeb gyrraedd y blynyddoedd olaf, ond nid oes gennyf gynlluniau i leihau cronfeydd wrth gefn eraill dros dymor y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trawsnewid digidol yn un o'i flaenoriaethau allweddol ers cael ei benodi'r llynedd. Mae'n hollol iawn i wneud hyn. Mae graddfa troseddu ar-lein, cymhlethdod yr ymchwiliadau yn eu sgil, yn gofyn ein bod yn buddsoddi i sicrhau bod gennym swyddogion a staff sy'n barod i daclo'r math hwn o droseddoldeb a bod yr offer y maent yn ei ddefnyddio at y safon ofynnol.

# Comisiynu Gwasanaethau

## Cronfa Ymyrraeth Gynnar 2018/19

Yn ystod y cyfnod hwn lansiais gynllun newydd wedi ei anelu at gefnogi prosiectau ymyrraeth gynnar.

Rwyf wedi sicrhau bod £100,000 ar gael bob blwyddyn ar gyfer y 3 blynedd nesaf i ariannu nifer o brosiectau. Gellir gweld y nawdd a neilltuwyd yn 2018/19 isod

| DERBYNNYDD | GRANT |
|---|---|
| **Home-Start**<br>Arweinydd ACE | Cyfanswm Cost y prosiect - **£60,188.00**<br>Blwyddyn 1 CHTh - £24,188.50<br>Blwyddyn 2 CHTh - £24,914.00<br>Blwyddyn 3 CHTh - £25,661.00 |
| **Hafal**<br>Rhaglen Iechyd Meddwl Pobl Ifanc | Cyfanswm Cost y prosiect - **£227,100.00**<br>Blwyddyn 1 CHTh - £30,000.00<br>Blwyddyn 2 CHTh - £30,000.00<br>Blwyddyn 3 CHTh - £30,000.00 |
| **Grŵp Cynefin**<br>Gweithiwr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£84,168.68**<br>Blwyddyn 1 CHTh - £14,907.50<br>Blwyddyn 2 CHTh - £15,724.94<br>Blwyddyn 3 CHTh - £16,582.78 |
| **Canolfan Merched Gogledd Cymru**<br>Prosiect Ymyrraeth ACE | Cyfanswm Cost y prosiect - **£415,946.00**<br>Blwyddyn 1 CHTh - £15,900.00<br>Blwyddyn 2 CHTh - £33,490.00<br>Blwyddyn 3 CHTh - £33,490.00 |
| **CYFANSWM** | Blwyddyn 1 CHTh - £84,995.50<br>Blwyddyn 2 CHTh - £104,128.94<br>Blwyddyn 3 CHTh - £105,733.78<br>**Cyfanswm Cost – £294,898.22** |

## Home-Start

Mae'r prosiect hwn yn codi ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) ac mae wedi cael ei gydnabod bod amrywiaeth o lefelau o hyfforddiant a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu gan sefydliadau preifat, statudol a thrydydd sector yn ymwneud ag ymwybyddiaeth a gwydnwch ACE. Bydd y prosiect yn gwahodd sefydliadau o Wrecsam a Sir y Fflint i rannu gwybodaeth a chefnogi ei gilydd i ganolbwyntio mwy ar ACE i osgoi ail-adrodd gweithgareddau mewn sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth. Yn ychwanegol, bydd y prosiect yn creu Hwb Dysgu ACE a fydd yn cynnig rhwydwaith gefnogol o sefydliadau sydd yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd gyda ffocws penodol ar gysylltu a gweithio gyda'i gilydd i atal ACE mewn plant a lliniaru effeithiau ACE ar eu rhieni.

## Gorwel

Cyfraniad tuag at Weithiwr Cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn ardal Gwynedd a Môn yn gweithio o fewn Siop Un Stop – Cam-drin Domestig Ynys Môn a fydd yn gweithio yn benodol gyda phlant ifanc. Nod y prosiect yw gwella'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ar draws Ynys Môn.

## Canolfan Merched Gogledd Cymru, DASU & CWLWM

Bydd y cyfraniad yn cefnogi pecyn 'trawma gwybodus' o raglenni ymyrraeth i fynd i'r afael â chanlyniadau materion fel cam-drin yn ystod plentyndod, trais domestig ac ymosodiadau corfforol a rhywiol. Fel modd o ymdopi gall merched ddechrau cam-drin sylweddau neu alcohol, dechrau troseddu, hunan-niweidio, dioddef o iechyd meddwl gwael neu ddychwelyd at bartneriaid treisgar. Mae'r rhaglen yn anelu at fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i wella gan gynnig strategaethau ymarferol i gyfranogwyr i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gwydnwch a chynyddu lles a galluogi iddynt wella.

## Mind Cymru a Hafal Môn

Mae'r cais hwn yn cyfuno dau brosiect cyflenwol gan y prif ddarparwyr iechyd meddwl lleol, Hafal a Mind Cymru. Mae gan y ddau brosiect y nod eang o leihau effaith problemau iechyd meddwl ar bobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Yn wahanol i broblemau iechyd corfforol, mae problemau iechyd meddwl yn tueddu i ddatblygu yn yr arddegau ac fel oedolion ifanc ac yn cael effaith tymor hir gydol oes. Mae'r cyfnod cynnar problemau iechyd meddwl hwn yn rhoi cyfle i ymyraethau atal ddigwydd sydd â'r potensial i leihau'r effeithiau tymor hir. Nid oes gan wasanaethau iechyd meddwl generig a statudol y gallu i wneud y mwyaf o'r cyfle ar gyfer ymyraethau strategol ac ataliol, ac yn aml maent yn canolbwyntio ar ymyraethau adweithiol sy'n ymateb i argyfwng. Hefyd, mae trawsnewid problematig yn 18 oed rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc a'r rhai hynny ar gyfer oedolion a all arwain at ddiffyg parhad gofal sylweddol yn ystod cyfnod hanfodol pan mae problemau yn datblygu.

## Y Gronfa Ymyrraeth Gynnar

Cefnogodd Cronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid gais ar y cyd gan y Pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru.

Drwy ddefnyddio partneriaid cyflawni allweddol a thrwy adeiladu ar ymyraethau lleol cyfredol, mae'r prosiect yn galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu a chael eu dargyfeirio oddi wrth y perygl o ecsploetiaeth a throsedd trefnedig difrifol. Mae'r cais hefyd yn gweithio i leihau ysgogwyr cydnabyddedig trais difrifol, ymwneud â delio â chyffuriau a materion llinellau cyffuriau ag amlygrwydd cario cyllyll a throseddau cyllyll.

## Crime Stoppers

Darperir Gweithiwr Ieuenctid Fearless ar draws pob ardal yr heddlu i gyflwyno a chyflawni gweledigaeth addysg a grymuso pobl ifanc yng nghyswllt trosedd, gan gynnig cyflwyniad uniongyrchol. Mae'r dull hwn yn cynnwys cymysgedd o gyflwyniad uniongyrchol a sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr, ynghyd â darparu adnoddau proffesiynol perthnasol sy'n golygu bod effaith y gwasanaeth yn gynaliadwy ac yn parhau'n hir.

## Ymddiriedolaeth St Giles

Elusen yw Ymddiriedolaeth St Giles sy'n cefnogi pobl gyda lefelau o anghenion cymhleth a heriol, yn aml mewn partneriaeth gyda'r system cyfiawnder troseddol. Byddant yn recriwtio, rheoli a goruchwylio gweithwyr achos a fydd yn gweithio wrth ochr asiantaethau lleol i gynnig ychwanegiadau i'r ymateb lleol i gangiau, llinellau cyffuriau a chamfanteisio ar blant a phobl ifanc.

## Street Games

Bydd Street Games yn adeiladu ar y gwaith maent wedi'i wneud o dan y rhaglen 'Safer Together Through Sport" drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli newydd dros gwrs y cyfnod ariannu. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar werth gwirfoddoli ieuenctid ac arweinyddiaeth cymheiriaid i ddatblygu ffactorau diogelu critigol gwydnwch, hunaneffeithiolrwydd, golwg bositif, perthnasau positif gydag oedolion yn ogystal â chyfleoedd i fod yn rhan o'u cymunedau. Bydd pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i wirfoddoli yn gyson i gefnogi'r effaith bositif rhwng ymgysylltiad gwirfoddoli ac effaith bositif arnynt yn bersonol ac yn y gymuned.

# Cronfa Trosedd ac Anrhefn 2018/2019

Mae'r dosbarthiad cyllidol ar gyfer y flwyddyn fel y caiff ei rannu fesul sefydliad i'w weld isod;

| DERBYNNYDD | GRANT |
|---|---|
| CAIS | £15,500 |
| Cymorth Dioddefwyr | £38,376 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | £66,771 |
| Hafan Cymru | £5,563 |
| DASU Gogledd Cymru Cyf | £6,345.63 |
| Grŵp Cynefin | £10,000 |
| Tîm Troseddwyr Ifanc Sir Conwy a Sir y Fflint | £43,567 |
| Tîm Troseddwyr Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn | £43,814 |
| Tîm Troseddwyr Ifanc Wrecsam | £42,205 |
| Tîm Troseddwyr Ifanc Sir y Fflint | £37,864 |
| Rhaglen Ymyriad Cyffuriau | £792,622 |
| Crimestoppers | £15,000 |
| RASASC | £16,000 |
| Teuluoedd a Effeithir gan Rieni yn y Carchar | £9,500 |
| **Cyfanswm** | **£1,143,128** |

# Cronfa Gwasanaethau i Ddioddefwyr 2018/2019

Yn ychwanegol at Gronfa Diogelu'r Gymuned rwyf yn derbyn grant o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2018/19 rwyf wedi comisiynu'r gwasanaethau canlynol;

- **Canolfan Cymorth Dioddefwyr**
- **Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig**
- **Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol**

Mae pob un o'r gwasanaethau isod wedi gwella'r gofal a'r gefnogaeth a roddwyd i ddioddefwyr trosedd ar draws Gogledd Cymru;

| DERBYNNYDD | GRANT |
|---|---|
| Grŵp Cynefin | £41,300 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | £11,900 |
| Hafan Cymru | £36,400 |
| DASU Gogledd Cymru Cyf | £40,637 |
| Cymorth i Ferched Cymru | £74,820 |
| BAWSO | £35,000 |
| Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol | £120,000 |
| Cymorth Dioddefwyr | £374,555 |
| Stepping Stones | £17,000 |
| Canolfan Cymorth Trais a Chamdriniaeth Rywiol | £22,000 |
| Costau Staff | £30,910 |
| **Cyfanswm** | **£794,522** |

# Acronymau defnyddiol

CCHTh / APCC - Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd / Association of Police and Crime Commissioners

BAWSO – Black Association of Women Step Out / Cymdeithas Menywod Du yn Camu Allan

BIPBC / BCUHB - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Betsi Cadwaladr University Health Board

CoPaCC – Comparing Police and Crime Commissioners / Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd

CSE – Child Sexual Exploitation / Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

DASU – Domestic Abuse Safety Unit / Uned Diogelwch Cam-drin Domestig

DVPN – Domestic Violence Protection Notice / Hysbysiad Diogelu Trais Domestig

DVPO - Domestic Violence Protection Order / Gorchymyn Diogelu Trais Domestig

HMICFRS – Her Majesty's Inspector of Constabulary Fire and Rescue Services / Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi

IDVA – Independent Domestic Violence Advisor / Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol

ISVA – Independent Sexual Violence Advisor / Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol

MARAC – Multi Agency Risk Assessment Conference / Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethau

MDS – Modern Day Slavery / Caethwasiaeth Fodern

NRM – National Referral Mechanism / Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

OCG – Organised Crime Group / Grŵp Trosedd Trefnedig

PACT – Police and Community Trust / Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned

PEEL – Police Efficiency, Effectiveness and Legitimacy / Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu

RASASC – Rape And Sexual Assault Support Centre North Wales / Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru

VAWDASV – Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence / Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

# CYSYLLTIADAU

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae gennyf dîm bach o staff sy'n fy nghefnogi i gyflawni fy rôl fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech siarad â rhywun am sut y gallwch fod yn rhan o ymgynghoriadau neu ddigwyddiadau yn y dyfodol cysylltwch â:

**01492 805486** neu cysylltwch â mi drwy e-bost ar **OPCC@northwales.pnn.police.uk**

I gael gwybod am fy ngwaith mwyaf diweddar gallwch:

- ymweld â fy ngwefan **www.nwpcc.CYMRU**
- fy nilyn ar Trydar **@NorthWalesPCC**

## Heddlu Gogledd Cymru

Mewn argyfwng ffoniwch 999 ac os oes gennych ymholiad difrys neu wybodaeth i rannu gyda'r heddlu ffoniwch 101.

E-bost:- **northwalespolice@nthwales.pnn.police.uk**
Gwefan:- **www.north-wales.police.uk**
Trydar:- **@nwpolice**

## Canolfan Cymorth Dioddefwyr

Os ydych wedi dioddef trosedd, mae Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn gallu cynnig y gefnogaeth a'r cyngor sydd ei angen arnoch. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn hollol gyfrinachol ac mae'n bosib cael mynediad iddo hyd yn oed os nad ydych wedi riportio eich profiad i'r heddlu.

Llinell gymorth Rhadffôn 24 awr ar **0808 16 89 111** neu **0300 30 30 159**
Gwefan - **www.victimhelpcentrenorthwales.org.uk**

## PACT

Gall Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) eich cynorthwyo i wneud cais am gyllid gan y prosiect 'Eich Cymuned, Eich Dewis'. Cysylltwch ar **01745 588516** gwefan **www.pactnorthwales.co.uk**